Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Lleoliadau Amgen

Llwyddiant i bob plentyn – Success for every child

# Cyfeirlyfr Lleoliadau Amgen

## Rhagair gan y Cynghorydd Lisa Mytton,
## Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
## ac Arweinydd Cabinet dros Ddysgu

Nid yw pob plentyn yn hapus i gael ei addysgu mewn amgylchedd traddodiadol, yn y ffordd draddodiadol.

Yn gynyddol, mae darparwyr addysg yn cydnabod fod plant bregus neu blant sydd wedi ymddieithrio'n ymateb yn well i ddysgu mewn ffordd wahanol, y tu allan i'r ystafell ddosbarth gonfensiynol.

Rwyf yn croesawu'r ffaith ein bod ni yma ym Merthyr Tudful yn ymwybodol o'r amrywiaeth wych o leoliadau addysg amgen sydd gennym ar stepen y drws oddi fewn i'r fwrdeistref sirol.

Rydym yn ffodus o gael digonedd o gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, gan roi'r cyfle i bobl ifanc droi eu llaw at bopeth o gyrsiau garddwriaeth a phorfwyd, i ofalu ar ôl anifeiliaid fferm a hyfforddi i fod yn hyfforddwr dringo neu hwylio.

Yn berthnasol i hynny, mae gennym raglenni prentisiaeth gwobrwyol i bobl ifanc sydd â diddordeb mewn pynciau STEM a dysgu mewn lleoliad gwaith, a chynlluniau i helpu i ddatblygu sgiliau digidol, menter a chyflogadwyedd yng nghysur eu cartrefi eu hunain.

Mae'r cyfeirlyfr hwn yn adnodd defnyddiol iawn, nid yn unig i'r darparwyr addysg ond hefyd i ddisgyblion sydd wedi ymddieithrio a'u teuluoedd i ddeall fod yna gefnogaeth allan yna ar eu cyfer i ddysgu yn y ffordd maen nhw am wneud.

Diolch yn fawr i holl bartneriaid y Cyngor am eu brwdfrydedd parhaus ac ymagwedd broffesiynol wrth helpu i gyflenwi hwn.

## Cynnwys


| | *Tudalen* |
|---|---|
| **Cynnwys** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Dysgu Cymunedol Cysylltiedig (ACT)** | **3** |
| **Academy 21 Ltd** | **4-5** |
| **Empire Boxing** | **6** |
| **Let Me Play** | **7-8** |
| **Dolygaer** | **9** |
| **Rock UK** | **10** |
| **Storey Arms** | **11** |
| **Amelie's Trust** | **12-13** |
| **Jamie's Farm** | **14-16** |
| **Paratoad Milwrol** | **17** |
| **Equity Foundation** | **18-19** |
| **Datblygu Chwaraeon** | **20** |
| **Trydydd Sector** | **21-29** |
| **Darpariaeth Black Sheep** | **30** |
| **Dug Caeredin** | **31-33** |
| **Cwricwlwm Amgen** | **34** |
| **ARC Adventures** | **35** |
| **iDEA** | **36** |
| **Antur Organig Cwm Cynon** | **37** |
| **HIT** | **38** |
| **Coleg Merthyr** | **39-40** |
| **Dallaglio RugbyWorks** | **41** |
| **Dyfodol Cadarnhaol** | **42** |
| **"The Fathom Trust" Yr Ymddiriedolaeth** | **43-44** |

# Cyfeiriadur Darparwyr Addysg Amgen
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 20/21

## Cyflwyniad

Diben y cyfeiriadur hwn yw darparu ffynhonnell wybodaeth i ysgolion am argaeledd darparwyr addysg amgen i ddisgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) sydd ag anawsterau ymddygiad cymdeithasol emosiynol. Mae'r amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael yn amrywiol ac yn benodol i'r pwnc i ddiwallu gwahanol anghenion a diddordebau'r disgyblion. Mae rhai o'r sefydliadau a restrwyd wedi gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a chefnogi pobl ifanc Merthyr. Mae nifer o'r ysgolion wedi comisiynu'r darparwyr i weithio gyda'u disgyblion eu hunain. Byddwch yn gweld bod rhaglen fanwl ar gyfer cyflenwi, deilliannau, cymwysterau a chostau pob darparwr. Caiff y cyfeiriadur ei adnewyddu'n flynyddol a'i ddiweddaru'n briodol. Bydd hefyd modd ei weld ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

# Dysgu Cymunedol Cysylltiedig (ACT)

## Manylion cyswllt

Kelly Rowlands, ACT Schools, Ocean Park House, East Tyndall Street, Caerdydd,
CF24 5ET
www.acttraining.org.uk kellyrowlands@acttraining.org.uk
02920464727

## Math o ddarpariaeth

Amgen i brif ffrwd, darpariaeth llawn amser neu ran amser yn cael ei gynnig. Mae darpariaeth dydd ar gyfer pynciau galwedigaethol ar gael, lleolir ar Hadfield Road, Caerdydd.

## Beth sy'n cael ei gyflenwi

Mae ACT yn cynnig cwricwlwm pwrpasol i ddysgwyr ail-ymgysylltu ag addysg. Gall dysgwyr gael mynediad i'r cwricwlwm craidd sy'n cynnwys darpariaeth TGAU yn ogystal ag amrywiaeth o bynciau galwedigaethol cyfwerth â chymwysterau TGAU.

## Ar gyfer pwy gaiff e ei ddarparu?

Caiff pob dysgwr 11-16 oed ei ystyried am gyfweliad. Mae ACT hefyd yn ysgol arbennig annibynnol gofrestredig gyda'r gallu i gyflenwi i ddysgwyr ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol.

## Oriau/dyddiau

1 i 5 dydd yr wythnos. 9am-2:30pm.

## Deilliannau

Caiff deilliannau dysgwr targedig eu dynodi wrth ei anwytho a'i fonitro ar hyd ei adeg yno. Tra bod cyrhaeddiad addysgiadol yn fesur allweddol, mae'r darparwr hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau fod y dysgwr wedi ei daclu ar gyfer cyrchfan ôl-16 priodol a dyfod yn aelod actif o gymdeithas.

## Cymwysterau L1,L2, TGAU neu gyfwerth

Caiff y cwricwlwm canlynol ei gynnig yn ACT: TGAU Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Rhifyddeg, TGAU Celf(Celfyddyd Gain), BTEC Lefel 1/Lefel 2 Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Agored Cymru Mynediad 3 Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Agored Cymru Lefel 1/2 Addysg sy'n Berthnasol i Waith, City & Guild Lefel 1 Sgiliau Adeiladu, City & Guilds Lefel 1 Cynnal a Chadw Cerbydau Modur, City & Guilds Lefel 1/ Lefel 2 Gofal Anifeiliaid, City & Guild Lefel 1 Trin Gwallt Sylfaenol, Ymddiriedolaeth Elusennol Hyfforddi Galwedigaethol Lefel 2 Gwallt a Harddwch.

## Cost y dydd

Costau yn dechrau o £65 y dydd ond yn ddibynnol ar y pecyn a brynwyd.

## Manylion cyfeirio

Cysylltwch â Kie Baldwin neu Amanda Bishop am ffurflenni cyfeirio: KieBaldwin@acttraining.org.uk Am gyfeirio galwedigaethol un dydd cysylltwch: amandabishop@acttraining.org.uk Bydd y broses anwytho'n dechrau ar ôl i'r gwaith papur cyfeirio gael ei gwblhau.

## Llwybr dilyniant (pan ddaw'r ddarpariaeth i ben)

Gall dysgwyr CA3 wneud cynnydd i ddarpariaeth CA4 ACT neu ddychwelyd i'r ysgol / darparwr arall. Gall dysgwyr CA4 wneud cynnydd i ddarpariaeth ôl-16 ACT, neu i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae ACT yn gweithio'n agos gyda chyrff fel Gyrfa Cymru i sicrhau cyrchfannau ar gyfer y sawl sy'n gadael ysgol.

## Adroddiadau monitro

Darparwr i gyflenwi adroddiad presenoldeb dyddiol, diweddariadau wythnosol ac adroddiadau monitro bob tymor i'r ysgol / cyfeiriwr. Mae un man cyswllt yn golygu cyfathrebu diogel ac adborth rheolaidd ar unwaith am bresenoldeb ac amserlen.

## Arholiadau ysgol

Caiff holl gymwysterau ACT eu dyfarnu a'u hachredu gan y ganolfan. Gall dysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU wneud hynny yn ACT ond bydd angen trafod hyn ar adeg cyfeirio.

# Academy 21 Ltd

## Manylion cyswllt

Laura Griffiths, Rheolwr Datblygu Busnes Wales & West, Academy21,Lewis Parry House, Elvicta Estate, Cricywel NP8 1DF
www.academy21.co.uk laura.griffiths@academy21.co.uk
01438 535001

## Math o ddarpariaeth

E-ddysgu/Dysgu o bell

## Beth sy'n cael ei gyflenwi

Mae Academy 21 yn ddarpariaeth addysg hyblyg, sy'n gweithio ar y sail mai'r amgylchedd gorau i fyfyrwyr ddysgu yw oddi fewn iddo yw lleoliad prif ffrwd uwchradd. Mae Academy 21 yn cefnogi darpariaeth arhosiad byr, gall ddiwallu anghenion darpariaeth 6 diwrnod, a ble y bo'n briodol, gellir comisiynu i weithio gyda phobl ifanc ar sail fwy hirdymor drwy eu harholiad.

## Ar gyfer pwy y caiff ei ddarparu?

Cynigir darpariaeth i ddisgyblion CA2 - CA5. Darpariaeth academaidd ei ffocws i ddysgwyr ifanc bregus na all neu sy'n gwrthod mynychu'r ysgol yn sgil problemau meddygol, iechyd meddwl cymhleth neu ymddygiadol.

## Oriau/dyddiau

Mae gwersi CA3 a CA4 dros flwyddyn academaidd 38 wythnos. Amserlen hyblyg i ddiwallu anghenion unigol disgyblion a gwersi wedi eu hamserlenni ar draws yr holl gyfnodau allweddol yn cael eu cefnogi gan fynediad 24/7 at wersi wedi eu recordio os nad yw dysgwyr yn gallu bod yn bresennol. Mae gwers CA2 o ddydd Llun tan ddydd Gwener drwy gydol y bore. Mae dysgwyr CA3 a CA4 yn derbyn pum gwers byw bob wythnos ym mhob pwnc o ddydd Llun i ddydd Iau. Gall disgyblion fynychu sesiynau cefnogi ychwanegol bob dydd Gwener ar gyfer grwpiau tiwtorial bach. Mae CA5 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 35 wythnos y flwyddyn galendr ar gyfer CA2 a CA5 a 38 wythnos galendr ar gyfer CA3 a CA4.

## Deilliannau

- Llwyddiant o ran ailintegreiddio i'r ysgol brif ffrwd. Atal gwaharddiad parhaol
- Cefnogi cyrhaeddiad / mesurau 'Progress 8'
- Caffael cymwysterau TGAU, Safon Uwch neu gymwysterau eraill
- Cwblhau cyrsiau achredig tymor byr a heb eu cyfyngu i gyrsiau penodol
- Lleihau risg o NEET, dilyniant i ddarpariaeth brif-ffrwd ôl-16
- Newidiadau cadarnhaol i agwedd myfyrwyr at ddysgu, ysgogiad, hyder a hunan-barch
- Gwell ymddygiad (dibynnu ar amodau presennol – gall weithio'n dda i ddisgyblion Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig)
- Gwella perthnasoedd gyda theulu a'r gymuned ehangach
- Cyfyngedig i gyrsiau penodol e.e. Paratoi ar gyfer Bywyd Gwaith, modiwlau byr mewn Llythrennedd Ddigidol, Cyflogadwyedd, Cyllid Personol a Chwrs ATL
- Peth effaith a hefyd yn cysylltu â chyrsiau penodol e.e. PWL.
- Gwell presenoldeb a phrydlondeb
- Cyrsiau cyflogadwyedd e.e. PWL a modiwlau cwrs byr

## Cymwysterau L1, L2, TGAU neu gyfwerth

TGAU, Safon Uwch, Sgil Adeiladu 1 a 2, Sgiliau Swyddogaethol, TGAU achub (Bl 11) CA2 (Bl 5 a 6): Llythrennedd / Rhifedd / Gwyddoniaeth / Dyniaethau / Ffrangeg / Cyfrifiadureg
CA3: Mathemateg / Saesneg/ Gwyddoniaeth / Dyniaethau/ Addysg Bersonol, Cymdeithasol, Iechyd ac Economaidd ABCh / Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
CA4: TGAU Mathemateg / Saesneg Iaith / Saesneg Llenyddiaeth / Gwyddoniaeth Gyfunol (Dyfarniad Dwbl /Triphlyg) / Hanes / Paratoi at Fywyd Gwaith
Sgiliau Swyddogaethol: Lefel 1 a 2 Saesneg/ TGC
Arall: ABCh / ESOL / Saesneg fel iaith ychwanegol

CA5: Safon Uwch mewn Bioleg / Busnes / Cemeg / Dinasyddiaeth Glasurol/ Saesneg Iaith / Saesneg Llenyddiaeth / Ffrangeg / Mathemateg Bellach / Daearyddiaeth / Almaeneg/ Hanes / Lladin / Mathemateg/ Astudiaethau Cyfryngau / Ffiseg / Seicoleg / Cymdeithaseg / Sbaeneg

## Cost y dydd

CA3 a 4 a. Blynyddol, talu ymlaen llaw: £1558 +TAW= £8.20 +TAW yr awr; b. Bob tymor, talu ymlaen llaw (ysgolion ): £48 +TAW am bob pwnc bob wythnos = £9.60 + TAW/awr.
CA2 a 5 Blynyddol, talu ymlaen llaw: £1558 +TAW= £8.20 +TAW yr awr. Mae opsiynau hyblyg byr dymor eraill ar gael ar ofyn.

## Manylion cyfeirio

Cysylltwch â Laura Griffiths am ffurflen gyfeirio Academy 21:
laura.griffiths@academy21.co.uk

## Llwybr dilyniant (pryd ddaw'r ddarpariaeth i ben)

Caiff llwybrau dilyniant eu cynnig un ai pan fo'r myfyriwr i fod i sefyll arholiad neu pan nad yw'r ddarpariaeth yn ofynnol mwyach. Gall disgyblion fod yn barod i ailintegreiddio i mewn i'r ysgol neu symud ymlaen at y grŵp blwyddyn nesaf. Mae disgyblion CA5 yn derbyn gwybodaeth a chanllawiau am raglenni astudio, cynnydd gyrfaol a cheisiadau i brifysgolion.

## Adroddiadau monitro

Caiff asesiad a monitro eu darparu drwy fynediad uniongyrchol i systemau ar-lein y darparwr, gan sicrhau tryloywder cyflawn o ran presenoldeb, ymgysylltiad a chynnydd y myfyriwr.
Bydd Academy 21 yn gweithio'n agos at ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni i sicrhau ymagwedd wedi ei phersonoli, yn ogystal â gyda 'mentor dysgu' enwebedig o'r ysgol. Mae Academi 21 yn cynnig asesiadau gwaelodlin yn y pynciau craidd, pan nad oes unrhyw ddata yn bodoli am y myfyriwr, yn ogystal ag asesiadau rheolaidd i fonitro cynnydd yn erbyn deilliannau targed. Gall ysgolion gael mynediad at bresenoldeb gwers wrth wers a data ymgysylltu, ac adroddiadau wythnosol a phob tymor.

## Arholiadau ysgol

Bydd yn ofynnol i'r disgybl ymgymryd ag arholiadau TGAU yn yr ysgol ble y mae wedi cofrestru.

# Empire Boxing

## Pecyn craidd

1 x grŵp bach (dim mwy na 4-6 disgybl) neu sesiwn un i un ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2-4

Amlder – 1 awr yr wythnos

Fformat - bocsio digyswllt, mentora a datblygiad personol. Cyflenwir sesiynau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau hyfforddi bocsio a chwaraeon ar sail rownd 3 munud drwy gydol yr awr. Ar ôl pob rownd ceir cyfnod gorffwys pan fydd yr hyfforddwr yn siarad â'r cyfranogwyr gan ddefnyddio negeseuon datblygu personol sy'n bwerus ac yn berthnasol.

Cost - £50 y sesiwn

## Pecyn Canolradd

2 x grwpiau bach (dim mwy na 4-6 disgybl) neu 2 x sesiwn un i un ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2-4

Amlder – 2 awr neu fwy bob wythnos (un ar ôl y llall)

Fformat - Pecyn craidd + dysgu ychwanegol o gwmpas deall maeth, ffordd o fyw iach, gan arwain at gyflawni Dyfarniad AQA/ASDAN.

Cost - £75 am bob sesiwn 2 awr (£37.50 yr awr ar ôl hynny)

# Let me Play

EIN SYNIAD MAWR
Darparu ymyrraeth gynnar, modelau rôl cadarnhaol ac amrywiol arddulliau dysgu i helpu person ifanc gyda'i lwyddiant.
Rydym yn gwbl grediniol fod yr hyn yw llwyddiant yn wahanol i bawb ac mae gennym atebion i helpu i gefnogi gwahanol amgylchiadau.

PWY YDYM NI
Grŵp o gwmnïau sy'n rhannu'r un nod o ysbrydoli uchelgais ac ehangu gorwelion.

Addysg LMP
- Hyfforddiant Prentisiaeth (16+)
- Cefnogi dysgwr (16+)

Ysbrydoli ATA
- Recriwtio, lleoli, cefnogi a dilyniant i brentisiaeth (16+)

Gweithredu LMP
- Gofal cofleidiol (3-11)
- Addysg Amgen (12-16)
- Cyfoethogiad (10-18)
- Gwersylloedd Preswyl (10-18)

YSTADEGAU
550 o ddysgwyr wedi ymgysylltu
Partneriaeth gyda 43 ysgol
160 o bobl ifanc unigryw wedi ymgysylltu yn 2019
4884 ymgysylltiad yn 2019
3328 awr o raglennu wedi eu cynhyrchu yn 2019

Y CYMWYSTERAU A GYNIGIWN
Rydym yn cynnig y canlynol ar y safle / oddi ar y safle yn rhithiol.
BTEC Chwaraeon
Lefel 1 Chwaraeon a Hamdden Actif
Lefel 2 Dyfarniad mewn Arwain Drwy Chwaraeon

Twristiaeth , Harddwch a Gofal Plant
Lefel 1 Lletygarwch a Thwristiaeth
Lefel 1 Cyflwyniad i Gwallt a Harddwch
Lefel 1 Cyflwyniad i Gwallt a Gofal Cymdeithasol

Sgiliau Gwaith
Lefel 1 Sgiliau Gwaith
Lefel 1 Technoleg Gwybodaeth

NCFE Chwaraeon

Lefel 2 Chwaraeon

ASDAN
Arbenigwr Gyrfaoedd a Phrofiad Gwaith

CYNNIG BUGEILIOL

- **Sgiliau bywyd**: Mae rhaglen bwrpasol gennym, **'Brighter Futures',** sy'n helpu gyda datblygu cyfathrebu, sgiliau rhyngbersonol, hunan fyfyrio a diogelwch.
- **Mentora**: Gellir aseinio tiwtor i'n hysgol i helpu mewn lleoliad ystafell ddosbarth a chynnig cefnogaeth mentora parhaus. Bydd ein tiwtoriaid yn cadw log ac rhoi adroddiad dyddiol i'r ysgol gyda'r diweddariadau.
- **Gweithdai**: Wrth ddefnyddio diddordebau'r myfyrwyr gallwn greu sesiynau ymarferol unigolyddol a/neu theori i ymgysylltu.

EIN GWASANAETHAU

Diogelu
*Caiff ein tiwtoriaid eu hyfforddi mewn Diogelu. Mae gennym strwythurau adrodd yn ôl clir a systemau mewn lle i gofnodi ac ymateb a gweld at ddigwyddiadau a datgeliadau.*

Rhoi gwybod am Bresenoldeb
*Mae ein tîm gweithrediadau yn casglu data presenoldeb dyddiol oddi wrth diwtoriaid yn ein darpariaeth. Caiff unrhyw absenoldebau sylw yn syth.*

Sicrwydd Ansawdd
*Mae Rheolwr Sicrwydd Ansawdd gennym sy'n gofalu ar ôl gwiriad mewnol.*

Rhoi gwybod am Ddigwyddiad
*Adrodd yn ôl yn amserol a chysylltu gyda chleient i ddod i benderfyniad cytunedig.*

Adroddiad bob Tymor
*Mae pob dysgwr yn cael adroddiad bob tymor, mae hyn yn cynnwys dangosydd allweddol o ran Perfformiad, pwyntiau canmoliaeth, cyflawniadau, pethau i'w gwella, sylwadau'r dysgwr a thargedau'r tymor nesaf.*

Taith y Cleient
*Yn cynnwys cytundebau lefel gwasanaeth, diagnostig, proses gyfeirio, cynllunio gweithredu ac adolygiadau.*

Am ragor o wybodaeth
Mikey Jones
mikey@lmp-action.co.uk
07535 858 907

CWMNI BUDDIANAU CYMUNEDOL GWEITHREDU LMP

# Dolygaer

https://www.parkwoodoutdoors.co.uk/centre/dolygaer/activity/38/schools

Yn Parkwood Outdoors Dolygaer, rydym yn cydnabod rôl gwirioneddol bwerus gall yr awyr agored ei gael wrth ddarparu dysgu cydgysylltiedg gyda'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae ein cyrsiau a'n pecynnau pwrpasol yn addas ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ac wedi eu cynllunio i herio, ysgogi, addysgu a datblygu myfyrwyr a staff sy'n ymweld. Mae gennym Ganolfan Ddysgu bwrpasol ar y safle ar gyfer gweithgareddau wedi eu lleoli yn yr ystafell ddosbarth, **llety ar y safle i 70 o fyfyrwyr yn cynnwys staff sy'n ymweld,** gwersylla i 100 a dewisiadau llety pellach gerllaw os yw'n ofynnol.

Rydym yn darparu arlwyo ar gyfer profiadau preswyl **dydd, arhosiad byr neu gydol wythnos,** gyda'r fantais ychwanegol fod y Ganolfan yn un hunan arlwyo os ydych am ei defnyddio ar gyfer eich grŵp ysgol chi'n unig. Mae Parkwood Outdoors Dolygaer yn wirioneddol yn gallu darparu ar gyfer pob math o drip ysgol a phrofiad preswyl.

Ymhlith y cyrsiau mae'r canlynol:
Weiren sip, canŵio, padl-fyrddio ar eich traed, caiacio, dringo creigiau, abseilio, cerdded ceunentydd, hwylio, beicio mynydd, heicio, achub a diogelwch.

Mae tripiau preswyl yn dechrau ar cyn lleied â £24 y plentyn y dydd, gan ddibynnu ar y nifer o ddyddiau mae'r disgybl yn bresennol. Gallwch gael dyfynbris pwrpasol yn seiliedig ar eich niferoedd a'ch gofynion.

**Manylion cyswllt:**

- Parkwood Outdoors Dolygaer Pontsticill Merthyr Tudful CF48 2UR
- 01685 848 309
- dolygaer@parkwoodoutdoors.co.uk

# Rock uk

Rhaglen NICAS (National Indoor Climbing Award Scheme) sydd yn ddyfarniad cenedlaethol achrededig ar gyfer dringo dan do ble mae myfyrwyr yn datblygu dros amser drwy dechneg a diogelwch dringo. Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu Lefelau 1-4 NICAS, a gallwn gynnal sesiynau pwrpasol oddi fewn i fframwaith y dyfarniad i ddiwallu anghenion myfyrwyr. Hynny yw cyrsiau wythnos o hyd neu sesiynau wythnosol dros y tymor.
Am ragor o wybodaeth am y cynllun ewch i NICAS ble y cewch yr holl wybodaeth o ran y cynllun a sut y mae'n ffitio mewn i ddeilliannau dysgu addysg neu ffoniwch fi ar y rhif uniongyrchol isod.

Joe Lewis
Pennaeth Gweithgareddau a Hamdden
Canolfan Copa - Rock UK – Summit Centre
Ffôn: 01443 710090
Symudol: 07849 085000

## Storey Arms

## Amelia Trust Farm

Fel elusen gofrestredig, annibynnol, mae gan Amelia Trust Farm ddigon o dystiolaeth o fod wedi cefnogi pobl ifanc bregus dros y 29 mlynedd ddiwethaf. Ar y dechrau roedd Amelia Trust Farm yn cefnogi pobl ifanc pan roedd yna ychydig iawn o ddarpariaeth ar gael i'r rheini a oedd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol. Mae Amelia Trust Farm yn gweithio'n agos at Dimau Troseddwyr Ifanc, Swyddogion Llesiant Addysg, Gweithwyr Cymdeithasol ac ysgolion i gefnogi pobl ifanc sy'n cael trafferth gyda bywyd.

Yn y Fferm, rydym yn ymfalchïo wrth greu amgylchedd cadarnhaol, mynegiannol sy'n maethu. Mae ein rhaglen GROW yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol i'w galluogi i allu adennill rheolaeth yn well yn eu bywydau. Ein hod yw cynyddu cymhelliant, hunan-barch a dyhead fel bod yna fwy o barodrwydd i ail-ymgysylltu gydag addysg a chael eu bywydau'n ôl ar y llwybr cywir.

Mae'r rhaglen GROW yn seiliedig ar lefel uchel o ofal bugeiliol gydag anghenion a llesiant pobl ifanc bob tro ar frig yr agenda. Mae cael ymagwedd plentyn-ganolog ar leoliad fferm, yn darparu amgylchedd sy'n tawelu'r meddwl ble mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn saff. Rydym yn helpu pobl ifanc i sylweddol fod yna amgenach bethau i drosedd a chyffuriau a bod ganddynt ddewisiadau yn eu bywydau. Rydym yn grymuso ac yn ysgogi'r unigolion hyn sy'n anodd cyrraedd atynt, ac yn eu hail-ymgysylltu gyda dysgu a datblygu sgiliau i'w helpu i lwyddo.


Canfyddwn fod llawer o'r bobl ifanc hyn wedi cael eu heffeithio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Gall natur ac anifeiliaid chwarae rhan bwysig wrth wella plentyn sydd wedi profi trawma (Courtney 2020, Tedeshi 2019, Mimms and Waddell 2019). Daw'r canfyddiadau canlynol o astudiaeth gan Craig et al (2020) am fanteision gweithio gydag anifeiliaid ar blant sydd wedi profi trawma.

*'As adverse experiences affect children into adulthood (Chartier et al., 2010; Smith & Smith, 2010), the ability to create and sustain a sense of normalcy during and after severe life disruptions is important. Study participants developed a sense of agency and the ability to advocate for themselves. They reframed challenges as opportunities for growth through goal-oriented talk, while speaking new identities into existence in order to surmount their adverse childhood experiences.'.*

Yn Amelia Trust Farm rydym yn trochi pobl ifanc mewn amrywiol weithgareddau a phrofiadau galwedigaethol yn cynnwys ymyraethau therapiwtig mewn nifer o wahanol leoliadau – bob un ohonynt wedi eu lleoli ar y Fferm:

• Amgylchedd Ffermio – llochesi anifeiliaid a chaeau
• Coetiroedd – coetir, pwll, llwyfan dipio a man gwylio adar
• Siop y Fferm – amgylchedd manwerthu mewn lleoliad therapiwtig
• Gweithdy Saer – ardaloedd cynhyrchu
• Neuadd Chwaraeon – maes 5 bob ochr, cyrtiau pêl-fasged a badminton
• Gym – peiriannau cardiofasgwlar a phwysau
• Canolfan Byw'n Annibynnol – Cegin, offer cegin ac ystafell ddosbarth
• Ystafell adnoddau – ystafell ddosbarth dan do ac ystafell TG
• Stiwdio Gerdd – stiwdio recordio ac ystafell fyw
• Amffitheatr a Gerddi – gwagle gwyrdd ac ystafell ddosbarth awyr agored

Gallwn felly ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau gwahanol i ail-ymgysylltu'r bobl ifanc â dysgu. Yn benodol, rydym yn canfod fod therapi gyda chymorth anifeiliaid yn helpu i wella hunan-les a hwyl unigolion sy'n isel, orbryderus, yn grac neu'n methu ymlacio. Ar ddiwedd y rhaglen rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr, lleoliadau addysgiadol a Gyrfa Cymru i helpu person ifanc i bontio i mewn i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.




Pan gaiff person ifanc ei gyfeirio atom, caiff gwerthusiad ei wneud o'i anghenion gan gynnwys corfforol, seicolegol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gwahoddir y person ifanc i'r Fferm am ymweliad cychwynnol gydag aelod o dîm GROW, ac os yw anghenion y person ifanc yn gallu cael eu diwallu gan y Fferm, yna cytunir ar ddyddiad cychwyn. Fodd bynnag, os yw person ifanc yn arddangos ymddygiad sy'n cyflwyno'r tebygolrwydd ei fod o risg i'w hunan ac eraill, rydym yn meddu ar yr hawl i gytuno ar oruchwyliaeth ychwanegol neu eithrio o'r rhaglen.

Yn dilyn anwytho ar ei ddydd cyntaf, caiff cynllun personol ei lunio i'r person ifanc a fydd yn cynnwys gweithgareddau ymarferol a phwrpasol a fydd yn helpu'r person ifanc i fyw'n annibynnol, datblygu ei ymwybyddiaeth o hunaniaeth a chyflawniad.

Mae rhaglen GROW yn rhedeg o 9.30am – 2.30pm yn ystod y tymor.

- Hyd at 3 diwrnod yr wythnos o leoliad, £69 yn cynnwys trafnidiaeth.

Amelia Trust Farm, Five Mile Lane, Y Bari, Bro Morgannwg, CF62 3AS
Fferm Ymddiriedolaeth Amelia, Lôn Pum Milltir, Y Barri, Bro Morgannwg, CF62 3AS
Phone Number / Rhif Ffôn: 01446 782030
Charity No. / Rhif Elusen: 1053468
Company Number / Rhif Cwmni: 2541591

www.ameliatrust.org.uk

# Natur ac anogaeth:

# Adferiad ar y fferm ar ôl y cyfnod clo

**Pam dod i Jamie's Farm nawr?**

Cafodd llawer o bobl ifanc eu heffeithio'n arw ar ôl cael eu cloi yn eu cartrefi am bron i dri mis. Mae'n bosibl bod absenoldeb hir o ran trefn, ymarfer corff, gwaith ystyrlon a rhyngweithio gyda'u cymheiriaid ac oedolion wedi arwain at ganlyniadau niweidiol hir dymor i nifer.  Bydd y rheini sydd eisoes o dan anfantais, oherwydd ble maen nhw'n byw, iechyd meddwl gwael, neu fywyd ysgol neu deulu sydd yn heriol yn barod, yn cael eu heffeithio'n wael mewn modd anghymesur.

Mae digon o brofiad gan Jamie's Farm o weithio gyda'r plant bregus hyn, gan gael effaith gadarnhaol, barhaol ar eu bywydau a'u llesiant. Yn ystod y cyfnod argyfyngus hwn, gall Jamie's Farm gynnig y canlynol i bobl ifanc:

- Ffordd o gael eu hailgyflwyno i'w cymheiriaid a gwaith grŵp, yn dilyn cyfnod o arwahanrwydd.
- Cefnogaeth therapiwtig unigolyddol, yn canolbwyntio'n enwedig ar orbryder a'r teimladau y gallai'r cyfnod clo fod wedi eu sbarduno.
- Trefn ddyddiol, i osod arferion da y gallai'r bobl ifanc fod wedi eu colli.
- Gwaith ystyrlon, i bwrpas ac yn ymarferol, i ymgysylltu â phobl ifanc, ailadeiladu eu hyder a'u hunan-les.
- Lle ar gyfer cael hwyl, ar ôl llawer o fisoedd heriol iawn.
- Diet iach a maethlon, isel mewn siwgr, caffein a bwydydd wedi eu prosesu.
- Llawer o ymarfer corff ac amser yn yr awyr agored, ar ôl cyfnodau hir y tu fewn.
- Lle ar gyfer 'ailosod y deial' a pharatoi plant i ail-ymgysylltu ag ysgol a dysgu, yn rhannol drwy ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'u hathrawon unwaith yn rhagor.
- Amser yng nghefn gwlad, gydag awyr iach a gwagle, yn dilyn llawer o fisoedd mewn dinasoedd.

**Beth sydd ar gynnig gan Jamie's Farm?**

Rydym yn cydnabod fod ymweliadau preswyl yn anodd ar hyn o bryd, wrth i ni i gyd addasu i fyd gyda COVID-19. Felly mae Jamie's Farm yn cynnig amrywiaeth o raglenni ymweliad dydd sy'n ein galluogi ni i gefnogi'r bobl fwyaf bregus mewn amgylchedd diogel a chadw at holl gyngor y Llywodraeth i ysgolion.

Rydym yn cynnig y rhaglenni dydd hyn yn ein ffermydd ym Mynwy, Henffordd a Chaerfaddon, sy'n golygu bod ein cymorth yn hygyrch i bobl ifanc ledled Cymru, Gorllewin Canol Lloegr, Bryste a'r De-orllewin.

**Dyddiau CPD: rhannu ein hymarfer ar y fferm**

Mae'r dyddiau hyn wedi cael eu cynllunio i fod o fudd i ddisgyblion a'r staff. Byddwn yn cyflenwi dydd CPD ar y fferm sy'n ymarferol, gan rannu ein hymagwedd at weithio gyda phlant bregus anodd cyrraedd atynt. Mae ein staff yn arbenigwyr ar adeiladu perthnasoedd ymroddgar gyda phlant sy'n gyndyn o ymgysylltu, a gwelir

canlyniadau trawsffurfiol yn aml mewn ychydig ddyddiau yn unig. Rydym am rannu'r hyn a wyddom, fel y gellir defnyddio'r ymagweddau hyn yn lleoliad yr ysgol a thu hwnt.

Byddai eich ysgol neu sefydliad yn dod â 6 o bobl ifanc i'r Fferm i ddilyn ein rhaglen weithgareddau arferol, fel y gwelir isod. Byddai 4 aelod o'ch staff yn dod gyda nhw, gan ymuno ac arsylwi ar ein tîm yn gweithio. Byddwn yn dangos ein hymagweddau ar waith, a bydd yna ddigon o gyfleoedd i fyfyrio a dysgu, gan weithio tuag at ddatblygu sgiliau ac ymarferion sy'n hanfodol i'r pecyn cymorth i bawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc bregus.

Gall disgyblion fod o unrhyw grŵp blwyddyn, ond yn ddelfrydol, o'r un 'swigen' yn yr ysgol. Byddai'r rhaglen yn bennaf o fudd i staff bugeiliol, ond byddai'n berthnasol i unrhyw athro, cynorthwyydd addysgu, gweithiwr cymdeithasol neu ddarparwr gofal. Caiff y canlynol eu darparu: esgidiau glaw, dillad awyr agored, bwyd cartref blasus. Gellir cwblhau un dydd yn unig, ond yn ddelfrydol, mae'r pecyn ar gyfer sawl dydd.

**Ymyrraeth wythnos gyfan: profiad dwys 5 dydd ar gyfer y rhai mwyaf bregus**

Mae'r rhaglen hon yn brofiad dwys wythnos o hyd wedi ei gynllunio i helpu'r plant hynny sy'n wirioneddol yn cael trafferth i ail-ymgysylltu gyda'r ysgol a/neu eu cymheiriaid ar ôl y cyfnod clo. Y nod yw ailosod y deial a dod o hyd i'w hunan hyder eto, i'w helpu i ail-ymgysylltu gyda bywyd ysgol yn gadarnhaol.

Yn y rhaglen hon, bydd grŵp o bobl ifanc 6-10 oed yn ymweld â'r fferm bob dydd. Bydd yna drefn ddyddiol o gwmpas gofalu ar ôl anifeiliaid ac amser prydau bwyd, gan roi strwythur i'w dydd i'r bobl ifanc. Bydd y rhaglen yn rhoi tasgau ymarferol i'r disgyblion sy'n ymweld fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys gofalu ar ôl anifeiliaid, torri coed tân a thyfu bwyd. Bydd hyn yn adeiladu eu hunan-barch, a allai fod wedi cael ei effeithio'n wael gan gyfnodau hir heb gyfle i deimlo eu bod wedi cyflawni unrhyw beth.

Bydd yr amgylchedd teuluol ar y fferm yn sicrhau fod y bobl ifanc yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o oedolion sy'n brofiadol yn gweithio gyda phlant bregus a fydd yn cefnogi pobl ifanc drwy'r wythnos a'u gwneud i deimlo'n arbennig ac wedi eu croesawu. Bydd cefnogaeth therapiwtig yn rhedeg drwy'r rhaglen a gaiff ei theilwra o gwmpas anghenion pob grŵp sy'n ymweld.

Bydd yr amseru yn hyblyg o gwmpas eich diwrnod ysgol, ond yn fras Dydd Llun 11.00-16.30, Dydd Mawrth – Dydd Iau 9.45-16.30, Dydd Gwener 9.45 - 13.30. Bydd angen i'r ysgol ddarparu trafnidiaeth i'r ffarm ac oddi yno a 2 aelod o'r staff i fod gyda'r grŵp bob dydd.

**Ymyrraeth hanner tymor: i'r rheini sydd angen cymorth rheolaidd**

Rydym yn cynnig rhaglen hanner tymhorol o gefnogaeth / cymorth i ddisgyblion a allai elwa fwy o gael cymorth wythnosol yn hytrach nag wythnos ddwys ar y fferm. Bydd y rhaglen hon yn dilyn yr un amlinelliad ag uchod. Fodd bynnag, bydd disgyblion yn ymweld â'r fferm un diwrnod bob wythnos am hanner tymor. Bydd hyn yn eu galluogi i elwa o'u profiad ar y fferm bob wythnos, tra bo staff ysgol yn gallu atgyfnerthu'r cynnydd gaiff ei wneud rhwng ymweliadau wythnosol i'r fferm.

Rydym yn cynnig y rhaglen hon bob hanner tymor, gyda chwe sesiwn i ddisgyblion 6-10, gan ddibynnu ar eu hanghenion.

**Sut mae rhaglen Jamie's Farm wedi cael ei haddasu i ymateb i COVID-19?**

Rydym wedi derbyn yr holl ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru / Lloegr a'r Adran Addysg ac addasu ein rhaglen yng ngoleuni hyn. Ymhlith y newidiadau allweddol rydym wedi eu gwneud mae'r canlynol:

Bydd y rhan helaethaf o'n rhaglen yn cael ei darparu yn yr awyr agored, gan fod yna lawer yn llai o risg o drosglwyddo yn yr awyr agored.

Rydym yn derbyn grwpiau sydd ychydig yn llai, 6-10 myfyriwr, i alluogi am ragor o bellter cymdeithasol a llai o rannu cyfleusterau.

Bydd y grŵp yn parhau ar y ffarm neu'n agos iawn ati ac mae'n annhebygol o ddod i gyswllt ag unrhyw un nad yw ar staff Jamie's Farm.

Dim ond pobl ifanc/ staff ymweld nad ydynt wedi dangos unrhyw symptomau COVID-19 dros y 7 niwrnod diwethaf fydd yn gallu mynychu. Bydd tymheredd pawb yn cael ei brofi wrth iddynt gyrraedd.

Caiff y fferm ei glanhau'n llwyr rhwng ymweliadau gwahanol grwpiau.

Cafodd asesiad risg cyflawn COVID-19 ei gwblhau ar gyfer holl elfennau'r ymweliad, gyda'r holl weithgareddau a threfniadau wedi eu haddasu i leihau'r risg.

**Diddordeb?**

Am ragor o wybodaeth neu i archebu, cysylltwch â Dominic Koole ar dom@jamiesfarm.org.uk.

# Paratoad Milwrol

Hyd at 3 dydd yr wythnos ar leoliad, £35 y dydd yn cynnwys trafnidiaeth. Hefyd £150 blaendal ar gyfer gwisg ac yn y blaen.

## Manylion cyswllt

Dan Shooter (Dirprwy Gyfarwyddwr Ysgolion) a Rob Carter (Rheolwr Canolfan Caerdydd)
MPS Caerdydd, Uned 5, Parc Diwydiannol y Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF105FE
www.mpct.co.uk Danshooter@mpct.co.uk robcarter@mpct.co.uk
0330 111 3939

Math o ddarpariaeth
Darparwr hyfforddiant seiliedig ar addysg yn defnyddio ethos milwrol fel mecanwaith ymgysylltu.

## Beth sy'n cael ei ddarparu

Lefel Achredig 1 a 2 cymwysterau galwedigaethol, rhestr ar gael ar QiW - C&G a BTEC.

## Ar gyfer pwy y caiff ei ddarparu?

Cynigir y ddarpariaeth i ddisgyblion grwpiau blynyddoedd 9-11. Mae pob dysgwr yn cael cynnig 'diwrnod blasu' i asesu addasrwydd ac i'r dysgwr brofi diwrnod arferol ac i amlinellu'r ddarpariaeth.

Oriau/dyddiau
9am -2:30pm opsiwn o un i dri dydd yr wythnos dros y flwyddyn academaidd.

Deilliannau
Blwyddyn 9: Dyfarniad Lefel 1 (Perfformiad 6.25pwynt) a Dyfarniad Lefel 2 (Perfformiad 11.5pwynt); Blwyddyn 10: Lefel 2 Tystysgrif estynedig (2 x Gradd B TGAU) (Perfformiad 92pwynt); Blwyddyn 11: Lefel 2 Tystysgrif estynedig (2 x Gradd B TGAU) (Perfformiad 92pwynt).

Cymwysterau L1, L2, TGAU neu gyfwerth
Blwyddyn 9: Lefel 1 (601/3629/7) a Lefel 2 (601/3632/7) Dyfarniad mewn Sgiliau Cyflogadwyedd; Blwyddyn 10: Lefel 2 Tystysgrif estynedig mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (601/3646/7);
Blwyddyn 11: Lefel 2 Tystysgrif estynedig mewn Gwaith Tîm a Datblygiad Personol (601/4184/0).

Cost y dydd
£30-£35.

## Manylion Cyfeirio

PARQ (caniatâd rhiant) a ffurflen cyfeirio'r ysgol i'w cwblhau cyn y diwrnod blas (gall dysgwyr ymuno drwy gydol y flwyddyn a pharhau i sicrhau cyrhaeddiad).

## Llwybr dilyniant

Pob llwybr ôl-16, addysg bellach, Coleg Paratoad Milwrol (ôl-16).

Adroddiadau monitro
Darparwr i i ddarparu adroddiad presenoldeb dyddiol, diweddariadau wythnosol a phob tymor
Adroddiadau monitro i'r sawl sy'n cyfeirio/ ysgol. Un man cyswllt yn golygu cyfathrebu ac adborth rheolaidd ar bresenoldeb ac amserlen.

## Arholiad Ysgol

Bydd yn ofynnol i'r disgybl ymgymryd ag arholiadau TGAU yn yr ysgol sydd wedi ymrestru.

[www.equityfoundationltd.org](http://www.equityfoundationltd.org)
admin@equityfoundationltd.org
01685 848111

**Equity Foundation Ltd** cydweithrediad nid am elw yw hwn a leolir ym Merthyr Tudful. Perchennog **Equity** yw Mike O'Neill, sydd wedi gweithio ers dros ddegawd mewn darpariaethau ym Merthyr Tudful, yn ogystal â blynyddoedd pellach fel Pennaeth Saesneg a Therapi Lleferydd ac Iaith mewn Awdurdodau Addysg eraill. Mae wedi gwasanaethau ar bedwar bwrdd Corff Llywodraethu yn y Fwrdeistref Sirol.

**<u>Dysgu Newydd / Special Tuition</u>**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Equity wedi darparu'r rhan helaethaf o diwtoriaid i'r Awdurdod Addysg ar gyfer ei ddarpariaeth **Dysgu Newydd / Special Tuition** oddi fewn i Gynllun Lefel Gwasanaeth gyda CBSMT. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol iawn i hyn. Mae dysgwyr yn dilyn pecyn tiwtora, yn bennaf grwpiau ym myngalo Tŷ Dysgu Dowlais, a lleoliad yng Nghefn. Mae dysgwyr yn astudio TGAU Saesneg, Mathemateg, Rhifeg, BTEC SWEET a LIBF Cyllid, yn ogystal â phecyn cymorth bugeiliol. Yn ddiweddar, maen nhw wedi dechrau darparu cymhwyster iAchieve.
Mae pob tiwtor wedi cael hyfforddiant mewn diogelu, bron pob un mewn cymorth cyntaf, a Team Teach neu PBS. Maen nhw'n mynychu cyfarfodydd NEET yr Awdurdod Lleol, cyfrannu at Banel, cysylltu ag ysgolion, teuluoedd, seicolegwyr addysg, gweithwyr cymdeithasol ac yn y blaen. Mae anghenion y dysgwyr yn amrywio o gefnogi ymddygiad, CLA, presenoldeb isel, ystyriaethau iechyd meddwl, gorbryder am ysgol, yn ogystal â rhwystrau eraill i ddysgu.

Mae Equity hefyd yn gallu cynnig nifer fach o becynnau pwrpasol i ysgolion sy'n chwilio am ddarpariaethau amgen neu ychwanegol. Mae pobl a gynigir yn cael ei ystyried yn Strategaeth Codi Safonau, Codi Dyheadau'r Awdurdod Lleol.

**<u>Tuition + (Tuition Plus)</u>**

Cymysgedd o ddysgu wyneb yn wyneb a chyfunol ar gyfer dysgwyr CA4 na fyddai'n cymhwyso ar gyfer Dysgu Newydd. Byddai hyn yn cynnwys diwrnod llawn o diwtora i bob disgybl, yn cynnwys TGAU, Saesneg, Mathemateg, Rhifedd a chymwysterau pwrpasol eraill, yn ogystal â phecyn datblygu gyrfa personol a chefnogaeth fugeiliol, wedi eu hanelu at bontio i mewn i'r gwaith neu'r coleg. Gellir hefyd gynnig pecyn CA3. Gall y ddarpariaeth fod yn fyr dymor neu'n hir dymor.
£220+TAW y dydd am hyd at 6 dysgwr. Byddai hyn yn cynnwys cyfarfodydd presenoldeb a diweddaru gydag ysgolion ac unrhyw asiantaethau cefnogi allanol arall.

**<u>Gwireddu Dyheadau</u>**

Gwersi ymyrraeth targedig yn yr ysgol neu'r cartref ar gyfer dysgu ychwanegol a chefnogaeth 1:1 neu grŵp bach. Gall gwersi gael eu hanelu at godi oed darllen, gwella sgiliau sylfaenol neu i ddysgwyr hŷn, ffocysu ar

rannu allweddol o arholiadau. Gall y pecyn hefyd gael ei ddefnyddio i ddarparu ymarferion cynyddu cyflawniad y dysgwr, e.e. darparu cwrs Cyllid LIBF o'r dechrau i'r diwedd (yn cynnwys sefyll yr arholiad) mewn bloc dwys o wersi dros gyfnod penodol.
Gellir cadarnhau costau ar ôl trafod beth sydd ei angen.

**Cynnig Galwedigaethol CA4**
Mae Equity hefyd yn archwilio cynnig galwedigaethol i ddysgwyr CA4, ble y gallant ddilyn pecyn pwrpasol mewn meysydd fel garddwriaethol ac adeiladu, yn ogystal â TGAU mewn pynciau craidd. Caiff lleoliadau eu harchwilio ond mae'r buddsoddiad yn sylweddol a byddai angen ystyried a thrafod hynny gydag ysgolion. Yn ddelfrydol byddai hyn ar gyfer lleoliadau diwrnod cyfan, wythnos gyfan.
Manylion pellach i ddilyn.

**Mentoriaid Dyheadol**
Mae Equity yn gweithio'n agos at bobl leol lwyddiannus a/neu broffil uchel. Mae rhai wedi gwirfoddoli i fentora pobl ifanc a chynnig eu cyngor a chefnogaeth. Ymhlith y meysydd mae gwleidyddiaeth, busnes, elusennau, y celfyddydau, heddlua ac iechyd. Mae Mentoriaid Dyheadol yn cael ei gynnig am ddim ar gyfer pecynnau Tuition+ a Chodi Dyheadau.

# Datblygu Chwaraeon

Heini Merthyr fel brocer lleoliad; ble mae disgyblion yn chwilio am leoliadau galwedigaethol yn y sector chwaraeon, i weithio gyda phartneriaid a helpu i'w lleoli mewn lleoliadau ystyrlon. Ymhlith y rhestr o ddarparwyr mae clybiau cymunedol, gyms preifat fel Rock UK. Yr hyn sy'n allweddol i'r dysgwr yw fod hyn yn berson ganolog ac felly nid ydym am i'r rhestr fod yn rhagnodol.

## Rhaglen Brentisiaeth a Rennir Aspire – Canolbwyntio ar Beirianneg STEM ac Uwch Gweithgynhyrchu

E-bost: Lowri.jones@merthyr.gov.uk

Mae Rhaglen Brentisiaeth a Rennir Aspire yn bartneriaeth strategol rhwng CBS Merthyr Tudful, Coleg Merthyr, Tydfil Training a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gynyddu sgiliau oddi fewn i gwmnïau cynhyrchu a pheirianyddol.

Y nod yw cynyddu twf busnes: wrth fynd i'r afael â diweithdra a hefyd darparu cyfleoedd dyheadol i bobl ifanc oddi fewn i'r Awdurdod Lleol mewn uwch gynhyrchu a pheirianneg.

Mae rhaglen brentisiaeth 16-24 oed yw Aspire. Meini prawf: 5 TGAU A-C yn ofynnol a/ neu Flwyddyn 1af Peirianneg Uwch.

**Rhaglen Gyflogadwyedd Plant sy'n Derbyn Gofal – Cefnogi plant sy'n derbyn gofal i ddod o hyd i leoliad, gwirfoddoli a chyfleoedd gwaith.**

E-bost: caitlin.tasker@merthyr.gov.uk
Rôl Swyddog Cefnogi a Mentora Cyflogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT), yw i ganolbwyntio ar ddatblygu amrywiaeth o ymyraethau pwrpasol sy'n cynyddu cyfleoedd Plant sy'n Derbyn Gofal, i gymryd camau cadarnhaol tuag at gael cyflogaeth ac ystyried cyfleodd prentisiaeth. Mae'r rôl yn ymwneud â chefnogi recriwtio prentisiaid a phrif gyflogwyr, cynnig mentora i bobl ifanc a chanllaw i gyflogwyr posibl i sicrhau cyfraddau uchel o ran cadw mewn swydd. Mae'r rôl hon yn ofynnol i adeiladu perthnasoedd cryf gyda defnyddwyr gwasanaeth potensial, Darparwyr Dysgu Wedi eu Lleoli yn y Gwaith, a phrif gyflogwyr yn seiliedig ar ymddiriedaeth, cyfrinachedd a phroffesiynoldeb ar bob adeg. Fel rhan o swyddogaeth Mentora y rôl hon, rydym yn weithredol gynorthwyo a mentora pobl ifanc gysylltiedig i sicrhau fod eu llwybr dysgu a nodau cytunedig yn cael eu diwallu, gan felly wella eu bywydau a lleihau anactifedd economaidd. Swyddogaeth hanfodol i'r rôl hon yw cael dyfnder gwybodaeth am wasanaethau lleol a gallu delio gyda a thorri lawr rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda Thîm Plant sy'n Derbyn Gofal CBSMT, Llamau a rhaglenni Cyflogadwyedd Merthyr er mwyn diwallu deilliannau personol pobl ifanc.

Yn bennaf, rydym yn gweithio gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal 16-25 oed. Fodd bynnag, gallaf weithiau fod yn gweithio gyda phlant iau nag 16 oed er mwyn bod yn rhan o gynllunio ôl-16.

**Rhaglen Ymgysylltiad Cymunedol – Aelodau cymunedol wedi ymgysylltu'n weithredol i ysgogi menter ac entrepreneuriaeth.**

Rôl yn seiliedig ar gyflogadwyaeth yw Menter Cymunedol sy'n seiliedig ar rôl sy'n anelu at ysgogi'r syniad o hunan-gyflogaeth oddi fewn i'r gymuned leol. Wrth weithio gyda phobl o bob cefndir, prif nod y rôl yw hwyluso syniad person o ddechrau ei fusnes ei hun a'i gyfeirio at sefydliadau a all ei gefnogi drwy'r broses. Rydym yn gweithio gyda phobl o bob oed. E-bost:Elliott.evans@merthyr.gov.uk

| Ymyrraeth | Blwyddyn Group |
|---|---|
| **Gwaith Arweiniol**<br>Cefnogaeth 1:1 drwy wrando ymarferol. Darparu rheolaeth creisis, mentora, broceru i oresgyn problemau personol sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc gan arwain at symud tuag at EET. Mae hyn yn cynnwys: ymweliadau cartref, cynllunio pontio a throsglwyddo i'r Coleg ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11. | **Ar gael i'r holl grwpiau blwyddyn** |
| **Globaleiddio a Dinasyddiaeth**<br>Rhaglen 8-wythnos yn cael ei chyflenwi mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru i gefnogi pobl ifanc i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach a'u lle oddi fewn iddo. Mae'n ystyried dinasyddiaeth weithgar oddi fewn i'r gymuned, y gweithle a'r byd ehangach, tra'n canoli gwerthoedd a chredoau craidd i wneud y blaned yn fwy cyfartal, teg a chynaliadwy. Bydd dysgwyr yn cyflawni lefel 1 Dyfarniad Agored Cymru mewn addysg bersonol a chymdeithasol. | **Ar gael i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11** |
| **Darpariaeth Bwrpasol**<br>Darpariaeth 6 wythnos pwrpasol i fynd i'r afael ag anghenion grŵp bach gyda'r cyfle o gyflawni cymwysterau mynediad 3 (Grŵp Anogaeth Blwyddyn 9) a lefel 1 (Blwyddyn 10 & 11). Rhaglen ataliol o ddatblygiad personol a chymdeithasol wedi ei chanoli ar ddeallusrwydd emosiynol. Ymhlith y pynciau mae hyder, gwella sgiliau cyfathrebu, sut all emosiynau effeithio ar wneud penderfyniadau a sut mae gweithio tuag at dargedau a nodau yn gallu effeithio ar hunan-barch. | **Ar gael i Flwyddyn 9, 10 ac 11** |
| **Ymgysylltu â Chyflogwr – Sgiliau Paratoi Gwaith**<br>Rhaglen 8 wythnos wedi ei chyflenwi mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru sy'n anelu at gyflwyno safbwynt realistig o'r hyn mae ysgolion a chyflogwyr ei eisiau. Ymhlith y pynciau mae: rheoli amser, presenoldeb, ymddygiad priodol, disgwyliadau, rhwystrau a chanlyniadau personol. A bydd disgyblion yn cael y profiad o ymweld â chyflogwyr a theithiau rhithwir. Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol cyn Lleoliad Gwaith a'r nod yw gwella ymddygiad ac agweddau at ysgol wrth gwblhau cymhwyster Lefel 1. | **Ar gael i Flwyddyn 10 ac 11** |

**Lleoliad Gwaith**

Dan arweiniad Gyrfa Cymru, mae profiad gwaith pwrpasol yn cael ei weld fel parhad o'r profiadau a gafwyd o weithdai Ymgysylltu â'r Cyflogwr (Blas ar Waith) a'r gweithgareddau nad ydynt yn bodoli y tu allan i brofiad gwaith.

**Ar gael i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11**

**Gweithgareddau Ymgysylltu yn yr Haf**

Mae ein gweithgareddau ymgysylltu yn yr haf yn cyflwyno profiadau newydd a heriau cyffrous i bobl ifanc gan roi cyfle iddynt gyfranogi mewn Addysg Awyr Agored sy'n eu hannog i ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda chymheiriaid ac yn y gwaith, creu profiadau cofiadwy, cael ymdeimlad o gyflawniad a gwobr, wrth gael hwyl! Mae'r bobl ifanc hynny sy'n debygol o fod ag angen cefnogaeth gwaith arweiniol ym Mlwyddyn 11 yn ddelfrydol ar gyfer y profiad hwn.

**Ar gael i ddisgyblion Blwyddyn 10**

## **Positive Futures**

Mae Positive Futures yn darparu addysg amgen ym Mwrdeistref Sirol Caerffili i bobl ifanc sy'n cael trafferth mewn addysg brif ffrwd gan roi cyfle i wella iechyd corfforol a llesiant meddyliol drwy bŵer chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Mae ein rhaglen Positive Futures Allgymorth yn rhaglen gynhwysiant gymdeithasol sy'n seiliedig ar chwaraeon ac yn targedu disgyblion 7-19 mlwydd oed sydd mewn perygl, neu sydd yn gysylltiedig â ASB/Trosedd. Cynhelir y sesiynau hyn gyda'r nos gan dargedu cymunedau â chyfradd uchel o ASB mewn pobl ifanc, gan ddarparu rhywle diogel iddynt ddod iddo i gyfranogi mewn sesiynau chwaraeon.

Nod y prosiect yw datblygu a gwella:

- Sgiliau Cymdeithasol
- Sgiliau corfforol (e.e. dysgu i nofio / reidio beic)
- Ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol
- Hyder
- Sgiliau cyfathrebu a gwrando

Gellir defnyddio'r gefnogaeth hon i ail-ymgysylltu ag addysg neu helpu person ifanc sydd mewn perygl o gael ei wahardd drwy ofal seibiant a fydd yn eu galluogi a gadw eu lle mewn addysg.

Beth gewch chi neu eich disgybl?

- Sesiynau gweithgaredd a gynllunnir, a allai gynnwys chwaraeon fel: pêl-droed, rygbi, tenis bwrdd, beicio mynydd, gym, nofio, sgwteri, syrffio a golff
- Mentora gan staff profiadol
- Cymwysterau ac achrediadau ychwanegol (BTEC Sweet , ASDAN a COPE)
- Pecynnau nofio (dysgu nofio, achub bywyd – pellter a 'rookie')

Keighlee Williams – Swyddog Datblygu Cynorthwyol Positive Futures
01495 235497 / 07710 385680
willik26@caerphilly.gov.uk

# Partneriaeth Ymddiriedolaeth Elusennol ‘Stephen and George Centenary (charitable trust) partnership’ gyda’r Adran Addysg

## Darpariaeth AHY – Mewn partneriaeth â Chanolfan Gymunedol Dowlais

***Cefndir y Ganolfan Gymunedol***

Mae pwyslais mawr yn y Ganolfan ar yr awyr agored, garddio, coginio porfwyd, llenyddiaeth a’r celfyddydau yn ogystal â chwaraeon.
Mae’r Ganolfan wedi ei lleoli mewn adeilad cymunedol adwyog mewn 5 erw.

Mae’r Elusen wedi hen sefydlu yn y gymuned leol ac yn 2019 cafodd ei henwebu fel y sefydliad ORAU yng Nghymru gan WCVA.

***Adnoddau a chyfleusterau yn Ymddiriedolaeth Elusennol ‘Stephens and George’.***

- Mae gan y Ganolfan gysylltiadau cryf yn y gymuned gyda phartneriaid fel Llenyddiaeth Cymru, y Gwasanaeth Prawf, Cadw Cymru’n Daclus, Cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth y defnydd o Ganolfan Gymunedol Dowlais. Mae gym ffitrwydd gan y Ganolfan, neuadd ffitrwydd yn ogystal â 5 erw o dir, clwb garddio ac ardal ymlacio i bobl ifanc. Ceir hefyd dau fan ar gyfer coginio, ardal gemau a pharc.
- Mae staff cymwysedig yn y Ganolfan a fydd yn cefnogi’r Rhaglen – hyfforddwr ffitrwydd cymwysedig, Mentor Gwirfoddolwyr, Cydlynydd Elusennol, Gweinyddwr, cydlynydd cylchlythyr, sydd wedi gweithio yn y sector ieuenctid.
- Mae’r Ganolfan eisoes wedi sefydlu rhaglen wirfoddoli, Gwobrau Ieuenctid drwy Youth Cymru a chyrsiau drwy’r YMCA a Chlybiau Bechgyn a Merched Cymru, ac wedi achredu dros 100 o bobl ifanc y llynedd drwy ei rhaglen ddydd.

- Mae'r ganolfan yn defnyddio caiacau a beiciau ffordd i'w defnyddio gan y clwb ac mae ganddi gysylltiadau cryf gyda Her Cymru / Challenge Wales ac yn creu partneriaeth yn aml fel bod pobl ifanc yn gallu cael y profiad o hwylio.

- Mae gennym arbenigedd wrth gaffael nawdd a gallwn weithio mewn partneriaeth gydag adran addysg yr awdurdod lleol i ddatblygu gwasanaeth EOTAS.

- Mae gan y Ganolfan brosiectau arwain ieuenctid eisoes y gall y Clwb gysylltu â nhw. Y mae wedi ennill nawdd oddi wrth Ieuenctid Cymru / Youth Cymru ac mae bellach yn hyb cerddoriaeth ac mae grŵp printio Stephens and George yn ariannu cylchgrawn *What's Occurin* sydd wedi cael ei ysgrifennu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

- Ceir hefyd 50 o ddosbarthiadau rhedeg yn y ganolfan y gellir integreiddio'r bobl ifanc iddynt, fel bocsio a carate, dosbarthiadau coginio.

***Y Weledigaeth a'r hyn rydym am i'r bartneriaeth ei gyflawni***

- Sgiliau Newydd – byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i ymgysylltu'r bobl ifanc i godi eu dyheadau a chyfleoedd bywyd.

- Bydd y bobl ifanc yn teimlo fel eu bod yn ailgysylltu â'u cymuned.

***Proses ac Allbwn Gwasanaeth EOTAS Service Process and Outputs***

- 2 berson ifanc wedi eu gwahardd o'r ysgol 3 diwrnod yr wythnos, o 10am i 2pm.
- Plant 7-11 mlwydd oed o Ysgol Gynradd y Graig
- Plant 5-7 mlwydd oed o Tŷ Dysgu
- Cefnogi pobl ifanc i gael mynediad at hyfforddiant a chefnogaeth.
- Darparu sesiynau sy'n berthnasol i iechyd.
- Darparu sesiynau sy'n berthnasol i weithgaredd corfforol.
- Cefnogi pobl ifanc gyda chyngor ac arweiniad ynghylch cyffuriau, sylweddau ac alcohol
- Cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli yn y gymuned
- Cyfarfodydd misol fforwm/pwyllgor ieuenctid
- Mynediad at gwnsela AM DDIM

## *Cynnig ar gyfer Rolau'r Swydd*

Caiff ei gynnig ein bod ni'n cyflogi:

Opsiwn 1:

**Dwy Swydd Gweithiwr Addysg 1 -16 Awr (12 awr wrth eu gwaith, 4 awr cynllunio) cost yr awr y person £15.00 a lleiafswm o £5000; £2500 ar gyfer rhaglen ddyfarnu a chyflenwadau i'r prosiect.**

**Llogi ystafell: £15.00 yr awr**

**(caiff staff eu recriwtio'n benodol i'r prosiect)**

Arwain wrth gyflenwi gyda 2 berson ifanc sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol ar gyfer gweithgareddau megis:

- Gemau Stryd
- Pêl-droed
- Cylch rhedeg
- Cerdded (Defaid)
- Partner gyda sefydliadau Iechyd a Llesiant
- Ennill Achrediadau mewn Chwaraeon a phynciau perthnasol
- Cyfranogi gydag asiantaethau partner mewn Cystadlaethau dan arweiniad Ieuenctid
- Gweithdai llenyddiaeth gydag awduron cymwysedig
- Mentoriaid busnes drwy lwyfan ar-lein
- Cysylltu â Senedd Ieuenctid
- Gweithdai therapi celf

Arwain wrth gyflenwi coginio, menter hyb amgylcheddol a garddio a gwyrdd.

- Prosiect gwlâu tyfu llysiau a Gardd Gymunedol i'w sefydlu
- Cyrsiau garddwriaethol i bobl ifanc
- Partneriaethau gyda chwilio am borfwyd, Cymru Amgylcheddol, Cadw Cymru'n Daclus
- Rhedeg sesiynau coginio wythnosol
- Gwasanaeth cwnsela am ddim yn cael ei redeg gan gwnseliaid cymwysedig, a'u cyflogi gan yr elusen.

Opsiwn 2:

**Tŷ Dysgu ac Ysgol Y Graig**

**Dau Weithiwr Addysgiadol 4 awr yr wythnos, uniongyrchol wyneb yn wyneb, a 2 awr o gynllunio. Cost yr awr y person £15.00 a lleiafswm o £5000; £2500 ar gyfer rhaglen ddyfarnu a chyflenwadau i'r prosiect.**

**Llogi ystafell £15.00 yr awr**

**(caiff staff eu recriwtio'n benodol ar gyfer y prosiect)**

Arwain wrth gyflenwi gyda 2 ysgol ar gyfer gweithgareddau fel y canlynol:

- Gemau Stryd
- Pêl-droed
- Cylch rhedeg
- Cerdded (Defaid)
- Partner gyda sefydliadau Iechyd a Llesiant
- Ennill Achrediadau mewn Chwaraeon a phynciau perthnasol

- Cyfranogi gydag asiantaethau partner mewn Cystadlaethau dan arweiniad Ieuenctid
- Gweithdai llenyddiaeth gydag awduron cymwysedig
- Mentoriaid busnes drwy lwyfan ar-lein
- Cysylltu â Senedd Ieuenctid
- Gweithdai therapi celf

Arwain wrth gyflenwi coginio, menter hyb amgylcheddol a garddio a gwyrdd.

- Prosiect gwlâu tyfu llysiau a Gardd Gymunedol i'w sefydlu
- Cyrsiau garddwriaethol i bobl ifanc
- Partneriaethau gyda chwilio am borfwyd, Cymru Amgylcheddol, Cadw Cymru'n Daclus
- Rhedeg sesiynau coginio wythnosol
- Gwasanaeth cwnsela am ddim yn cael ei redeg gan gwnseliaid cymwysedig, a'u cyflogi gan yr elusen.

## *Sicrwydd Ansawdd a monitro*

**SICRWYDD ANSAWDD A MONITRO**

Bydd rheoli a goruchwylio'r Ddarpariaeth yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens and George sydd â lle yn y canlynol:

- Systemau Sicrwydd Ansawdd
- Gweithdrefn Cwyno
- Polisi Cyfleoedd Cyfartal
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Recriwtio a Dethol
- Goruchwylio ac Arfarnu
- Polisi Diogelu Oedolyn a Phlentyn

Yn ychwanegol, bydd y Swyddog yn sicrhau;

- Gwerthuso'r holl raglenni a gweithgareddau gan Bobl Ifanc
- Systemau Sicrwydd Ansawdd effeithiol ar gyfer cynllunio, monitro a gwerthuso'r holl raglenni.

**TREFNIADAU ADRODD YN ÔL**

Swyddogion i ddarparu drwy systemau casglu Data System Rheoli;

- Gwybodaeth presenoldeb misol
- Gwybodaeth aelodaeth chwarterol
- Ymgymryd â gwybodaeth monitro perfformiad chwarterol
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Hunan Asesu am y Gwasanaeth

**Yn ychwanegol;**

-cyfarfod wythnosol 1 i 1 gyda Chydlynydd Elusen Stephens and George a mynychu cyfarfodydd staff wythnosol.

-adroddiad wythnosol gan gydlynydd yr elusen.

Bydd yr holl staff yn glynu at bolisïau a gweithdrefnau CBSMT a’r Ymddiriedolaeth.

## Rhif Cyswllt: 01685 377688

## Darpariaeth Blacksheep Provision

Cysyniad sy’n cael ei lywio gan y dysgwr gan roi’r cyfle i bobl ifanc wella eu cyflogadwyedd drwy hyfforddiant ymarferol a phrofiad gwaith wedi eu lleoli yn y gymuned.

Sefydlwyd Black Sheep Training Ltd. Yn 2017. Mae Black Sheep wedi defnyddio profiad sefydliadau cymunedol, cwmnïau preifat, elusennau lleol, swyddogion cyngor a chymdeithasau tai i ddefnyddio’r gwagle a gynigir mewn asedau cymunedol a lleoliadau sy’n cael eu rhedeg gan elusennau. Bydd y gwagle hwn, sydd ag angen help hanfodol i gyflawni cynaliadwyedd yn darparu llwyfan dysgu a phrofiad gwaith hanfodol i bobl ifanc sy’n ceisio cael profiad yn y diwydiant adeiladu.

HELPU POBL IFANC YW EIN NOD

Cadw amser, gwisgo gwisg Black sheep, offer diogelu a thwls drwy Lefel 1 Cymwysterau mewn Diogelwch Adeiladu, Hyfforddiant a Defnyddio Olwynion Sgraffiniol, Cerdyn CSCS, Lefel 1 Codi a Chario, Lefel 2 Cynaliadwy aeth Adeiladu (ailgylchu), nid yn unig yw ein hyfforddiant ymarferol yn ymarferol ... y mae’n ffordd i bobl ifanc fod yn fwy cyflogadwy i’r diwydiant adeiladu, gyda GWIR brofiad, cymwysterau GO IAWN, a CV GO IAWN a’r sgiliau cyflogadwyedd hefyd.

Rydym yn canfod fod y rhaglen yn gweithio’n well gyda myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 a gall grwpiau fod rhwng 1 ac 12 o fyfyrwyr, mae’r gost bob amser yn £500 y dydd ac os oes mwy na 6 mewn grŵp mae’n ofynnol cael oedolyn arall yn bresennol o’r ysgol neu’r ddarpariaeth i gefnogi’r tiwtor.

Mae’r rhan fwyaf hanfodol o’n cysyniad wedi ei fewnblannu yn ein gwerthoedd a’n hymwybyddiaeth o foeseg y gweithle mewn bywyd GO IAWN. Bydd ein dysgwyr yn cael dealltwriaeth o’r anawsterau sydd yn y gweithle, y pwysau wrth gyflawni gwaith ar amser! Rydym yn cynnig ymagwedd hyblyg ble y gallwch daro mewn neu gymryd ymagwedd hirach sy’n eich galluogi o bosibl i gael cymwysterau fel y canlynol:

Cerdyn CSCS
Lefel 1 Iechyd a Diogelwch
Lefel 3 Cymorth Cyntaf
Ymwybyddiaeth o Weithio ar Uchder
Olwynion Sgraffiniol
Lefel 2 Codi a Chario

Rydym yn gweithio gyda Chymdeithasau Tai Rhondda a Merthyr i helpu sefydliadau i gyflawni eu breuddwydion drwy roi’r help sydd ei angen arnynt oddi wrth bobl sydd “eisiau” helpu. Mae ein dysgwyr yn cael cyfoeth o sgiliau cymdeithasol, economaidd, ymarferol, llesiant, addysgiadol a bywyd yr ydym yn falch iawn i fod yn rhan ohonynt. Mae ein tîm yn cynnwys pobl sy’n deall ac sydd wedi byw’r profiadau eu hunain, felly gwyliwch y fideo isod a barnu drosoch chi’ch hun.

Chris Hassan: 077546824141.
chris@arctrainingco.com.

## **Gwobr Dug Caeredin**

Profiad sy’n newid bywyd. Hwyl gyda ffrindiau. Cyfle i ddarganfod diddordebau a thalentau newydd. Arf i ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd a gwaith. Nod cydnabyddedig o gyflawniad y mae cyflogwyr yn ei barchu.
Mae’r Wobr hon yn nifer o bethau i nifer o bobl, gan gefnogi cenedlaethau o bobl ifanc i lywio’u ffordd drwy fywyd oedolyn yn llwyddiannus.
Gall pobl ifanc 14-24 oed ddilyn rhaglen y Wobr ar un o dair lefel gynyddol. Ar ôl cwblhau yn llwyddiannus maen nhw’n arwain at Wobr Efydd, Arian neu Aur Dug Caeredin.
Mae pedair adran i’w cwblhau gyda Lefel Efydd ac Arian, a phump ar gyfer Lefel Aur. Maen nhw’n cynnwys helpu’r gymuned/amgylchedd, dyfod yn fwy ffit, datblygu sgiliau newydd, cynllunio, hyfforddi ar gyfer a chwblhau alldaith, ac ar gyfer Aur yn unig, gweithio gyda thîm ar weithgaredd preswyl.
Gall unrhyw berson gwblhau’r Wobr, waeth beth yw ei allu, rhywedd, cefndir neu leoliad. Nid cystadleuaeth na dod yn gyntaf yw diben cwblhau’r Wobr, ond gosod heriau personol a gwthio ffiniau personol.
Drwy raglen y Wobr, mae pobl ifanc yn cael hwyl, gwneud ffrindiau, gwella eu hunan barch ac adeiladu hyder. Maen nhw’n cael sgiliau hanfodol a phriodoleddau ar gyfer gwaith a bywyd, fel cydnerthedd, datrys problemau, gweithio mewn tîm, cyfathrebu ac awydd, gwella CV a cheisiadau am swyddi a’r brifysgol.
Caiff sefydliadau sy’n gweithio gyda phobl ifanc drwydded i redeg rhaglenni’r Wobr, fel ysgolion, colegau, grwpiau a chlybiau ieuenctid. Drwy’r Sefydliad Trwyddedig, mae pobl ifanc (neu eu rhieni/ gofalwyr) yn talu am Le Cyfranogi ac yn cael eu cefnogi gan Arweinwyr sy’n eu cefnogi drwy eu rhaglen, a’u helpu i ddewis eu gweithgareddau, gosod nodau a chyflawni eu Gwobr.
Mae Gwobr Dug Caeredin yn elusen gofrestredig, a gaiff ei hariannu gan roddion, Lleoedd Cyfranogi a thrwyddedau. Mae’r elusen yn gweithio gyda Sefydliadau Trwyddedig ledled y DU i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael y buddion  a ddaw drwy gyflawni’r Wobr.

Mae elusen y Wobr yn trwyddedu miloedd o sefydliadau sy’n gweithio gyda phobl ifanc gan gynnwys ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid, i redeg y Wobr ledled y DU.

Os oes diddordeb gennych mewn gwneud y Wobr:

– Gofynnwch i’ch ysgol, coleg neu brifysgol – os nad yw’n darparu’r Wobr, efallai y gall ystyried ei sefydlu.

– Ymunwch â grŵp ieuenctid cenedlaethol sy’n rhedeg y Wobr i’w aelodau, fel y Scouts neu Girl Guids.

– Cysylltwch â’ch clwb ieuenctid lleol i weld a oes trwydded ganddo.

– Os ydych chi dros 18 oed, gwnewch eich Gwobr Aur yn uniongyrchol gyda Gwobr Dug Caeredin.

Byddwch yn cael ei cefnogi gan Arweinydd drwy Sefydliadau Trwyddedig. Bydd yr Arweinydd yn cynnig cyngor ac anogaeth drwy gydol eich rhaglen Gwobr Dug Caeredin gyfan.

– Efydd – ar gyfer 14+ oed

– Arian – ar gyfer 15+ oed

– Aur – ar gyfer 16+ oed

Os nad ydych chi’n 14 oed eto, ond eich bod yn y flwyddyn ysgol pan fyddwch yn troi’n 14 oed, mae’n bosibl y cewch ddechrau rhaglen Efydd y Wobr – gwiriwch gyda’ch Arweinydd.

Hefyd, os nad ydych chi'n 15 oed eto, ond eich bod yn y flwyddyn ysgol pan fyddwch yn troi'n 15 oed, mae'n bosibl y cewch ddechrau rhaglen Arian y Wobr – gwiriwch gyda'ch Arweinydd.

## Graddfeydd Amser Efydd

Fel arfer bydd hi'n cymryd 6 mis i gwblhau'r rhaglen Efydd.

– Adran Wirfoddoli: 3 mis

– Adran Gorfforol: 3 mis

– Adran Sgiliau: 3 mis

– Adran Alldaith: 2 dydd/1 nos

Mae hefyd rhaid i chi dreulio tri mis yn ychwanegol yn ar un o'r adrannau sgiliau gwirfoddoli neu gorfforol. Eich dewis chi yw pa un, ac er y gallwch newid eich meddwl yn ddiweddarach, dylech benderfynu ar ba adran rydych am ei wneud hiraf ar y dechrau. Drwy wybod am ba mor hir y byddwch yn gwneud y gweithgaredd bydd yn haws i chi ddewis eich gweithgaredd a gosod eich nodau ar gyfer pob adran.

## Graddfeydd Amser Arian

Bydd yn cymryd o leiaf 6 mis ar gyfer y Wobr Arian os ydych chi wedi cyflawni'r Efydd eisoes, neu 12 mis os ydych yn mynd am yr Arian yn syth.

– Adran Wirfoddoli: 6 mis

– Adrannau Corfforol a Sgiliau: Un adran am 6 mis a'r adran arall am 3 mis

– Adran Alldaith: 3 dydd/2 nos

Os na wnaethoch chi'r Efydd, rhaid i chi ymgymryd â 6 mis pellach wrth un ai wirfoddoli neu'r hiraf o'r Adrannau Corfforol neu Sgiliau.

## Graddfeydd Amser Aur

Ar gyfer yr Aur, bydd angen i chi ddilyn eich rhaglen am o leiaf 12 mis os ydych wedi cyflawni eich Gwobr Arian, neu 18 mis os ydych wedi dechrau ar Lefel Aur heb wneud eich Arian – hyd yn oed os ydych wedi gwneud eich Efydd. Y gwahaniaeth mawr gyda'r Aur yw y byddwch yn cyflawni adran Breswyl – aros i ffwrdd oddi cartref am bump dydd a phedair nos gan rannu gweithgaredd gyda phobl nad ydych yn eu hadnabod.

– Adran Wirfoddoli: 12 mis

– Adran Gorfforol a Sgiliau: Un adran am 12 mis a'r adran arall am 6 mis

– Adran Alldaith: 4 dydd/3 nos

– Adran breswyl: ymgymryd â rhannu gweithgaredd mewn lleoliad preswyl i ffwrdd o'r cartref am 5 dydd a 4 noson.

Os na wnaethoch y cam Arian, rhaid i chi ymgymryd â 6 mis pellach yn un ai'r Gwirfoddoli neu'r hiraf o'r Adran Gorfforol neu'r Sgiliau.

Mae Gwobr Dug Caeredin yn ymdrechu i gadw'ch costau yn isel felly cost y Pecyn Croeso cyfredol, sy'n cynnwys ffi cyfranogi, yw £22 am y Wobr Efydd, £22 am yr Arian a £29 am yr Aur. Mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol am weithgareddau ac fe allai sefydliadu trwyddedig sy'n rhedeg Gwobr Dug Caeredin, fel ysgolion, ychwanegu ffi bach i dalu am gostau gweinyddu ac yn y blaen.

Os yw ysgol, clwb neu weithredwr arall yn codi mwy arnoch na hyn, mae hynny am eu bod yn cynnwys costau ychwanegol atynt, fel trafnidiaeth neu alldaith ac yn y blaen. Rhaid iddyn nhw ddweud wrthych chi am unrhyw gostau ychwanegol a beth maen nhw'n talu.

Caiff hyn ei gynnig yn Bryn Bach Park

# Cwricwlwm Amgen

**Cynnig y Gwasanaeth Ieuenctid:**

- BTEC Pearson – Sgiliau gwaith – Mynediad 3, Lefel 1, Lefel 2
- BTEC Pearson – Twf Personol a Llesiant – Mynediad 3, lefel 1, Lefel 2
- BTEC Pearson – Sgiliau Coginio yn y Cartref – Lefel 1 a Lefel 2. (Byddai angen i ysgolion ddarparu mynediad i gegin ar gyfer cyflenwi'r modiwl hwn)

Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â darparu'r cymwysterau, fodd bynnag, dim ond ar leoliadau ysgol yr ydym yn darparu neu mewn lleoliadau a drefnwyd gan yr ysgol ac nid ydym yn trefnu lleoliadau ar gyfer darparu yn y gymuned. Bydd argaeledd y cyflenwi yn dibynnu ar y galw.

**Cynigion eraill sydd ar gael i ysgolion:**

- DofE Efydd – nid yw'n arwain at achrediad CA4 cydnabyddedig. Ar gael ym Mharc Bryn Bach.

- ASDAN CoPE- (Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu Tystysgrif Effeithiolrwydd Personol)

- Mae'n achrediad sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol ac ar gael ar gyfer Lefelau 1, 2 a 3. Mae'r cymhwyster yn cynnig ffyrdd dyfeisgar o achredu gweithgareddau pobl ifanc. Mae'n hyrwyddo ac yn caniatáu i ganolfannau gofnodi amrywiaeth eang o briodoleddau personol, galluoedd a chyflawniadau pobl ifanc yn ogystal â'u cyflwyno i weithgareddau a heriau newydd. Mae hyn ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11, naill ai oddi fewn i raglen ABGI yr ysgol gyfan neu oddi fewn i'r system opsiwn 'Ymdrech Fawr' i fyfyrwyr neu'r sawl a ddiffinnir yn ddawnus a thalentog yng Nghyfnod Allweddol 3, Myfyrwyr mewn addysg ar ôl 16 oed, dechrau ar raglenni Lefelau 1 a 2.

- ? Bike Park Wales or Motorcross Caerdydd

- ? Arts and crafts Cyfarthfa Park

## ARC Adventures

### Manylion cyswllt

Claire 01550 740452
Activity Residential Camp Adventures Ltd T/A Arc Adventures, YHA Llanddeusant, Llangadog, SA19 9UL

### Math o ddarpariaeth

Mae'r rhaglen yn ymwneud â dysgu bod yn hunan ddibynnol, a her wythnos o hyd ydyw. Y mae'n bosibl methu'r her. Rydym yn ystyried hyn yn gymaint o brofiad dysgu dilys i'r grŵp ag ydyw ei gwblhau. Mae'r gweithgareddau'n gofyn am sgiliau corfforol, meddyliol, creadigol a chydweithredol er mwyn cwblhau. Y nod yw bod pob aelod o'r tîm yn cael y cyfle i serennu; ac i ddod ar draws trafferthion yn ystod yr wythnos, a chaiff y grŵp eu tynnu'n ôl at hynny i fyfyrio arno. Bydd grwpiau'n dringo, caiacio, saethu, nofio a llithro eu ffordd drwy'r ogofau, llynnoedd, mynyddoedd a fforestydd Cymru i chwilio am neges derfynol oddi wrth y Tylwyth Teg. Caiff sgiliau craidd eu dysgu er mwyn eu defnyddio'n ddiweddarach fel darllen mapiau, rheoli amser, gwaith tîm a hunan reolaeth.

### Ar gyfer pwy y gaiff ei ddarparu?

Cynlluniwyd yn benodol fel dewis amgen mwy cymhellol i bobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad heriol, mae llinell storïol yr anturiaethau'n seiliedig ar y seicoleg o hunan-awdura a meta-wybyddiaeth.

### Oriau/dyddiau

5 dydd (Dydd Llun i Ddydd Gwener)

### Deilliannau

Mae'r rhaglen hon yn ymwneud â dysgu bod yn hunan-ddibynnol, ac mae'n her wythnos o hyd y mae'n bosibl ei fethu. Rydym yn ystyried hyn yn gymaint o brofiad dysgu dilys i'r grŵp ag ydyw ei gwblhau.

## iDEA - Inspiring Digital Enterprise Award

**Math o ddarpariaeth**

Caiff ei adnabod fel iDEA ac mae'n rhaglen sydd wedi ennill gwobrau rhyngwladol. Mae'n eich helpu i ddatblygu sgiliau digidol, menter a chyflogadwyaeth am ddim.

Drwy ein cyfres o heriau ar-lein, gallwch ennill bathodynnau i wella eich gyrfa, datgloi cyfleoedd newydd ac, yn y pen draw, ennill dyfarniadau a gaiff eu cydnabod gan ddiwydiant sy'n eich helpu i wneud argraff dda.

Mae bathodynnau iDEA yn fodiwlau byr rhyngweithiol ar-lein – rydych yn gweithio drwy fathodynnau sydd yna'n mynd ymlaen at Ddyfarniadau.
Mae iDEA yn gyfwerth digidol a menter â Gwobr Dug Caeredin. Efydd i ddechreuwyr, Arian yn ganolig ac Aur yn uwch. Mae Gwobr Efydd iDEA a Gwobr Arian iDEA ar gael nawr, a bydd Aur yn cael ei ryddhau yn y man.

Gallwch arwyddo fel unigolyn (gall oedolion wneud hynny hefyd) neu gallwch arwyddo fel ysgol fel eich bod chi'n gallu dilyn trywydd eich dysgwyr.

**Beth yw bathodyn?**

Modiwlau rhyngweithiol ar-lein yw bathodynnau iDEA, sydd wedi eu creu mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr diwydiant, y gallwch gael mynediad am ddim atynt, ar unrhyw ddyfais, unrhyw le yn y byd. Maen nhw'n amrywio o ran hyd ac anhawster ac mae gan iDEA amrywiaeth anferthol o fathodynnau i chi eu dewis. Ewch am yr un sydd o ddiddordeb i chi i gychwyn arni.

**Cost**

Cofrestru ar-lein am ddim www.idea.org.uk

# Anturiaethau Organig Cwm Cynon

Manylion Cyswllt

Green Valley Site, Tiroedd Canolfan Chwaraeon Abercynon, RCT, CF45 4UY.
07880837465
janiswerrett@cynonvalleyorganicadventures.com

Math o ddarpariaeth

Helpu pobl i dyfu drwy gysylltu'n ddyfnach â natur yw ein cenhadaeth. Rhoi amgylchedd diogel a chytûn i bobl er mwyn dysgu a helpu pobl i oresgyn unrhyw rwystrau a allai sefyll yn y ffordd.
Ein nod hir dymor yw datblygu parth dysgu amgylcheddol ble y gall pobl ddysgu am yr amgylchedd ac effaith gaiff bobl arno. Drwy gysylltu'n ddyfnach â natur, bydd cenedlaethau'r dyfodol yn sicrhau fod anghenion natur yn ganolog i ddatblygiadau newydd a byddant yn creu cymunedau ble y gall natur a phobl byw'n gytûn.

Mae ein deilliannau'n anhygoel ac rydym ni'n aml yn gweld pobl ifanc yn datblygu persbectif newydd tuag at ddysgu sgiliau cyfathrebu cryfach (hyd yn oed gyda'u hathrawon yn yr ysgol), newid mewn deiet ac adeiladu cydnerthedd a strategaethau ymdopi newydd. Mae gennym safle coetir 5 erw gyda thwneli 'poli', afon, perllan, llyn, cegin fach ar ardal fwyta ac ym mis Mawrth byddwn yn cydweithio â Phrifysgol Caerdydd a'n plant i greu llwybr amser peillio a fydd yn monitro effaith lleoedd gwyrdd ar lesiant.
Rydym yn cyd-goginio brecwast a chinio, felly caiff pawb eu bwydo'n dda.

Ar gyfer pwy y gaiff ei ddarparu?

Mae'r lleoliadau sy'n cael eu darparu fel arfer ar gyfer y rheini sy'n ddysgwyr dynodedig neu ddysgwyr sy'n agored i niwed.

Oriau/dyddiau

Mae dydd ac amser y lleoliad yn hyblyg gan amrywio o 1 i 3 dydd.

Cymwysterau

Rydym yn goleg achredig sy'n darparu cymwysterau a chymorth dysgu i amrywiaeth eang o gyrsiau o Lefel Mynediad paratoi at fywyd i gymwysterau Lefel broffesiynol Lefel 3 a 4 yn ogystal ag amrywiaeth o gyrsiau llesiant byr fel cydnerthedd neu newid ymddygiad.

Cost y dydd

Mae lleoliad 3 mis yn costio £250 gydag o leiaf 1 cymhwyster, ond yn ddibynnol ar y plentyn bydd fel arfer yn 2 neu 3. Fel y soniwyd mae dyddiau'r wythnos yn hyblyg gan amrywio o 1 i 3. Dim mwy na 4 person mewn grŵp.

Manylion cyfeirio

Byddai cyfeirio'n digwydd drwy ffonio neu e-bost ynghyd ag asesiad risg sydd angen i chi ei weithredu i blentyn unigo. Byddai adroddiadau adrodd yn ôl yn fisol yn cael eu darparu ynghyd â thaflenni canlyniadau datblygiad llesiant a phersonol.

## **HIT Education**

Manylion Cyswllt

Julia Griffiths julia@youthcymru.org.uk
Uned D, Ystâd Masnachol Upper Boat, Pontypridd, CF37 5BP. 01443 827840
www.hiteducation.co.uk
info@hiteducation.co.uk

Math o ddarpariaeth

Cyflenwir darpariaeth ar ac oddi ar y safle, yn dibynnu ar anghenion yr unigolion. Mae'r rhaglenni a ddarperir yn bwrpasol; y prif ffocws yw ymgysylltu pob dysgwr yn ôl i mewn i addysg brif ffrwd, neu lwybrau amgen. Mae pob rhaglen yn cynnwys y gefnogaeth canlynol:

- Mentora
- Iechyd Corfforol
- Iechyd Meddwl
- Ymyrraeth Gorfforol
- Llythrennedd
- Rhifedd
- Ymddygiad
- Cyflogadwyedd
- Cefnogaeth gyda fframwaith Cwricwlwm Dros Gymru
- Y cam nesaf (Canllaw i mewn i addysg neu gyflogaeth bellach)

Ar gyfer pwy gaiff e ei gyflenwi

Mae HIT Education yn cynnig darpariaeth amgen i fyfyrwyr cynradd ac uwchradd o fewn lleoliadau prif ffrwd neu gynhwysol.

Cymwysterau
Mae'r holl gyrsiau sy'n cael eu darparu yn cael eu hachredu gan Agored Cymru. Maen nhw'n amrywio o Fynediad Un i Lefel Tri. Mae'r pecynnau Lefel Un i Dri yn gyfwerth â dau TGAU A-C.

## Coleg Merthyr

## COLEG MERTHYR TUDFUL 14-16 RHAGLEN LLWYBRAU

**Tystysgrif/Tystysgrif Estynedig a Diploma Lefel 2, BTEC Pearson mewn Gwaith Tîm a Datblygiad Personol yn y Gymuned**

Nod y coleg yw darparu rhaglenni llwybrau ystyriol a chymesur ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed sydd yn canolbwyntio ar y cyflogwr ac sydd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgwyr sydd am fynd yn eu blaen â'u haddysg, i brentisiaeth neu i gyflogaeth lawn amser.

Bydd Tystysgrif/Tystysgrif Estynedig a Diploma Lefel 2, BTEC Pearson mewn Gwaith Tîm a Datblygiad Personol yn y Gymuned yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â TTC ac yn cynnwys cyflogwyr allweddol er mwyn ein galluogi i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddarperir gan ffocws Llywodraeth Cymru ar y sectorau sylfaenol (er enghraifft addysg, twristiaeth, gwasanaethau cyhoeddus.) Bydd hyn yn annog ffyniant rhanbarthol a dyfeisgarwch sy'n gysylltiedig â sgiliau gan gynorthwyo datblygiadau allweddol fel datblygiad Parc Cyfarthfa, Zip World a Gorllewin Rhydycar.

**Prif Unedau:**

- Uned Orfodol: Datblygu Sgiliau Gwaith Tîm Effeithiol

Mae Unedau eraill yn cynnwys:

- Datblygu Sgiliau Cyfathrebu effeithiol
- Paratoi ar gyfer Cyflogaeth
- Datblygiad Personol drwy Antur yn yr Awyr Agored – cysylltiedig â Gwobr Dug Caeredin
- Gwirfoddoli yn y Gymuned
- Gwella Iechyd a Ffitrwydd ar gyfer Llesiant Personol
- Dinasyddiaeth ac Ymwybyddiaeth Gymunedol
- Datblygu Sgiliau Arweinyddiaeth

Bydd y rhaglen yn caniatáu i ddysgwyr adeiladu a datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn astudio ymhellach, dechrau prentisiaeth neu ddatblygiad i gyflogaeth.

## Uned Allweddol

***Darparu'r cwrs***

*Rydym yn cynnig darparu Tystysgrif Estynedig gyda'r opsiwn bod dysgwyr yn cwblhau eu Gwobr Efydd Dug Caeredin dros ddwy flynedd (1 dydd yr wythnos). Byddai hynny'n gyfartal â 2 TGAU i'r dysgwyr y gellir eu cyflenwi fel rhaglen llwybr un dydd, yr ydym yn cynnig fyddai ar y dydd Gwener bob wythnos.*

***Recriwtio dysgwyr i ymuno â'r cwrs***

*Mae gennym le i 12 dysgwr – 3 o bob ysgol i ymuno â'r cwrs. Er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio'r dysgwyr cywir ar y cwrs, rydym yn cynnig y byddem yn:*

1. *Gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo'r cwrs i ddisgyblion blwyddyn 9 (Ebrill – Mai). Bydd hyn yn cynnwys sgyrsiau mewn gwasanaethau i flwyddyn 9, nosweithiau rhieni / gofalwyr, fideos hyrwyddo a sgyrsiau hyrwyddo gan gyflogwyr allweddol*
2. *Cefnogi disgyblion blwyddyn 9 i ymgeisio am y cwrs (Mai – Mehefin)*
3. *Cyfweliad anffurfiol â disgyblion sy'n mynegi diddordeb – erbyn diwedd Mehefin*
4. *Cadarnhau derbyn i'r cwrs – wythnos gyntaf Gorffennaf*
5. *Darparu sesiwn cwrdd a chyfarch a sesiynau cyflwyno – diwedd Gorffennaf*
6. *Dechrau'r cwrs – wythnos 1af Medi (dydd Gwener 3ydd neu 10fed o Fedi)*

| *Blwyddyn* | *Cynnwys* |
|---|---|
| *Blwyddyn 1<br>1 dydd yr wythnos* | • *Datblygu Sgiliau Gwaith Tîm Effeithiol (Gorfodol)*<br>• *Datblygiad Personol drwy Weithgareddau Anturus (Opsiynol) ar y tir yn bennaf, adeiladu tîm a dringo*<br>• *Paratoi ar gyfer Cyflogaeth*<br>• *Gwobr Efydd Dug C – Sgiliau, corfforol, gwirfoddoli* |
| *Blwyddyn 2<br>1 dydd yr wythnos* | • *Dinasyddiaeth ac Ymwybyddiaeth Gymunedol / Datblygu Sgiliau Arwain*<br>• *Datblygiad Personol drwy Weithgareddau Anturus (Opsiynol) fel ym mlwyddyn 1 ond hefyd yn cynnwys 3-4 o weithgareddau ar y dŵr*<br>• *Sgiliau Alldaith*<br>• *Gwobr Efydd Dug E – gorffen yr holl adrannau* |

**Y gost am y flwyddyn academaidd hon fydd £863 i bob dysgwr**

# Dallaglio RugbyWorks

Cafodd Dallaglio Rugby Works ei sefydlu'n wreiddiol fel Dallaglio Foundation gan y cyn chwaraewr rygbi i Loegr, Laurence Dallaglio.

**Ffocws**

Ymgysylltu â phobl ifanc drwy bŵer chwaraeon, ond hefyd eu hymrymuso i newid eu bywydau er y gorau a'u harfogi gyda sgiliau a phrofiad o'r gweithle.

**Grŵp Targed**

Pobl ifanc 14–17 mlwydd oed, un ai wedi eu gwahardd, neu ar fin cael eu gwahardd o addysg brif ffrwd gan roi'r cyfle iddyn nhw lwyddo a symud ymlaen at Addysg Bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Beth maen nhw'n ei wneud?**

Maen nhw'n darparu amrywiaeth o ymyraethau wedi eu cynllunio i gydweddu'r lleoliad addysg y maen nhw'n gweithio â nhw ac ar hyn o bryd maen nhw'n rhedeg llawer o raglenni. Ceir pwyslais ar uwchsgilio pobl ifanc a gweithio fel tîm.

**Rugby Works Full**

Caiff yr ymyrraeth lawn ei darparu ar draws y flwyddyn academaidd lawn a'i chynllunio i adeiladu perthynas hir dymor gyda phobl ifanc, fel eu bod yn ymddiried yn eu mentoriaid ac yn eu deall – ceir cymysgedd o weithgareddau sy'n seiliedig ar rygbi, ond hefyd gwaith yn yr ystafell ddosbarth sy'n cydweddu.

**Rugby Works Lite**

Mae hwn yn gyfnod o ymyrraeth sy'n fyrrach ac yn fwy dwys, gyda'r nod o greu effaith gadarnhaol ar bobl ifanc fel eu bod yn gallu ei ddefnyddio wrth symud ymlaen yn eu bywyd yn yr ysgol a'u bywyd personol.

**Ymyraethau yn ystod Gwyliau'r Ysgol**

Ceir amrywiaeth o ymyraethau ar gynnig i gefnogi pobl ifanc.

**Manylion cyswllt:**

info@dallagliorugbyworks.com

Dallagliorugbyworks.com

Cyswllt Phil Hannah (Rheolwr Rhaglen Cenedlaethol) phil@dallagliorugbyworks.com

0203 848 4965

Hefyd ar Twitter, Facebook, Instagram, LinkedIn, a YouTube

## Dyfodol Cadarnhaol

Mae Dyfodol Cadarnhaol yn ddarparwr addysg amgen yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd yn cynnig cyfle i bobl ifanc sydd yn ei chael hi'n anodd dygymod mewn addysg prif ffrwd i wella eu hiechyd corfforol a'u llesiant drwy chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Mae'r rhaglen Allgymorth Dyfodol Cadarnhaol yn rhaglen chwaraeon, gynhwysol a chymdeithasol sydd yn targedu plant sydd rhwng 7 ac 19 oed ac sydd mewn risg o fod yn rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol/troseddol. Mae'r sesiynau'n yn cael eu cynnal gyda'r nos ac mewn cymunedau sydd â chyfradd uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith eu pobl ifanc. Maent yn darparu rhywle diogel iddynt allu cyfranogi mewn sesiynau chwaraeon.

Nod y prosiect yw datblygu a gwella:

- Sgiliau cymdeithasol
- Sgiliau corfforol (e.e dysgu nofio/reidio beic)
- Ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol
- Hunanhyder
- Cyfathrebu a Sgiliau gwrando

Diwrnodau cyfan am £185 (ar gael o 28 Mehefin)

Mae'r gwasanaeth cyfredol ar sail un i un

Keighlee Williams
01495 235497 / 07710 385680
Willik26@caerphilly.gov.uk

## “The Fathom Trust” (Yr Ymddiriedolaeth)

### Cefndir

Mae’r Ymddiriedolaeth hon yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (Rhif Elusen 1190352), ac fe’i lleolwyd ar draws nifer o ystadau gwledig yng Nghymru. Cytunwyd ar y rhanddeiliaid sy’n darparu’r gwasanaeth, ac mae gwaith ar y gweill gyda phartneriaid lleol o’r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynnig cyngor a goruchwyliaeth arbenigol ar faterion gweithredol, gan gynnwys diogelu a diogelwch cleifion. Mae’r  Ymddiriedolaeth yn chwilio am bartneriaid i ddatblygu’r peilot bach hwn i fod yn “brawf o gysyniad” fydd yn para blwyddyn. Cynigir manylion ar ddiwedd y ddogfen.

Mae dull Fathom yn helpu pobl i ail-werthuso’u hunan-ganfyddiad arferol ac adfer eu hymdeimlad o ystyr a phwrpas trwy ymgymryd â gweithgareddau saernïo a ffermio. Trwy ddarparu model o seilwaith cymdeithasol integredig, cyfannol a chost-effeithiol, mae’r Ymddiriedolaeth yn gwasanaethu fel partner cyflenwol i’r GIG, gan ymateb yn gadarnhaol ac yn arloesol i heriau gofal iechyd sy’n wynebu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yn y pen draw, bydd gweithgareddau’r Ymddiriedolaeth yn gynaliadwy o ran cyllid. Hyrwyddir hynny trwy gynnig cyrsiau taledig i weithwyr proffesiynol sydd mewn perygl o flinder meddyliol neu gorfforol, yn ogystal â chreu eitemau rhagorol megis crefftau o waith llaw a chynhyrchion amaethyddol ar gyfer y farchnad. Defnyddir y ffrydiau incwm hyn tuag at gostau’r allgymorth a gynigir i ysgolion a chymunedau, gan ddarparu gofal sydd y tu hwnt i gwmpas y gwasanaethau statudol ar hyn o bryd.

### Gweithgareddau

Mae’r Ymddiriedolaeth Fathom yn darparu amgylcheddau diogel, tawel a chreadigol lle gall pobl ddysgu canolbwyntio ar dasgau ymarferol sydd yn eu hymlacio’n feddyliol, ac yn creu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, perthnasoedd a safbwyntiau newydd. Mae’r dull cymunedol hwn yn integreiddio partneriaid cyhoeddus, preifat ac annibynnol ac yn defnyddio adnoddau mewn modd mwy ymarferol ac effeithlon.

Cerfio llwyau - Dysgwch sut i lunio sbatwla a llwy o blociau pren.

Crochenwaith - Dysgwch sut i gymysgu clai a thaflu bowlen seramig ar olwyn gic draddodiadol.

Pobi bara - Dysgwch sgiliau pobi bara gan bobydd lleol sydd wedi ennill gwobrau.

Antur awyr agored - Nofio gwyllt, dringo, cerfio, abseilio, mynydda.

Creu dodrefn – Cwympo ynn, eu tynnu gyda thîm o geffylau Ardenne, a malu’r pren. Dysgwch sut i wneud bwrdd, cadair, neu fainc.

Teithiau cerdded natur dan arweiniad - Cyflwyniad i fflora a ffawna brodorol yn Nyffryn Wysg a Bannau Brycheiniog.

### Rhaglenni Elusennol

Colofn 1: Adferiad

Cwrs “treiddio” 12 wythnos yn cynnwys 24 o sesiynau hanner diwrnod ar gyfer unigolion sydd wedi’u cyfeirio o ofal sylfaenol, iechyd meddwl yn y gymuned, awdurdodau lleol ac ysgolion. Gall cyfranogwyr gael

hyfforddiant ar nifer o grefftau traddodiadol a gweithgareddau ffermio, a chefnogir eu hadferiad trwy raglen o fyfyrio strwythuredig.

<u>Amcanion</u>
Gwasanaeth atgyfeirio ar gyfer meddygon teulu, seiciatryddion ac awdurdodau lleol
Cysylltiadau â natur, sgiliau crefft, a rhwydwaith cymorth cymunedol
Mynediad at gefnogaeth addysgol a therapiwtig

<u>Colofn 2: Cadernid Personol</u>

Bydd cyfres o fodiwlau addysgol, o'r enw "Athroniaeth Blaen Bys" yn dysgu llythrennedd iechyd, athroniaeth naturiol, a sgiliau crefft. Gall myfyrwyr gychwyn ym Mlwyddyn 9 (14 oed) a pharhau â'r cyrsiau am weddill eu haddysg. Cofnodir tystiolaeth o ddatblygiad personol a chyfranogiad dinesig mewn llyfr log digidol, sydd yn ei dro yn gwella mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant pellach. Cyflwynir modiwlau ar raddfa fwy ar blatfform dysgu ar-lein sy'n darparu mynediad uniongyrchol i hybiau therapiwtig Fathom.

<u>Amcanion</u>
Llesiant corfforol, meddyliol ac ysbrydol
Cysylltiad cymdeithasol - y gallu i ymarfer sgiliau crefft yn annibynnol
Rhwydwaith cymorth ar gyfer gofalwyr, athrawon a theuluoedd

<u>Colofn 3: Adfywio</u>

Mae'r cyrsiau hyn yn para tridiau ac yn cynhyrchu incwm. Eu nod yw gofalu am weithwyr allweddol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd â gweithwyr proffesiynol eraill sydd mewn perygl o ddiffygio. Mae cyfranogwyr yn cael cyfle i gynhyrchu'u gwrthrych eu hunain, fel cadair gefn-ysgol, dan oruchwyliaeth arbenigol. Maent yn derbyn hyfforddiant ar bynciau sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant gan arbenigwyr pwnc ac yn elwa o asesiad ac hyfforddiant personol yn y maes seicolegol.

<u>Amcanion</u>
Cymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth ar dirweddau naturiol, adeiladau a threftadaeth leol anniriaethol
Ysgogi disgwrs ar natur ffyniant cynaliadwy yn yr unfed ganrif ar hugain
Sefydlu cymunedau o wneuthurwyr a thyfwyr - creu swyddi a sgiliau yn y sector crefftau amaethyddol

**<u>Costau</u>**

| Elfen | Disgrifiad | Pobl | Cost (£) |
|---|---|---|---|
| Treiddio | 4 x cwrs 12 wythnos | 48 | 100 |
| Athroniaeth Blaen Bys | Datblygu a threialu modiwlau addysgol ar gyfer myfyrwyr blynyddoedd 8 a 9 | 240 | 50 |
| **Cyfanswm y Gost** | | | 150 |

| Darpariaeth | Sesiynau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg |
|---|---|
| ACT | Na, ond adnoddau Cymraeg ar gael |
| Academy 21 | |
| Empire Boxing | |
| Let me Play | Na |
| Dolygaer | Ydyn |
| Rock UK | |
| Storey Arms | |
| Amelie’s Trust | |
| Jamie’s Farm | Na, ond gellir darparu adnoddau Cymraeg |
| Paratoad Milwrol | Na, ond defnyddir y Gymraeg drwy gydol y gwersi |
| Equity Foundation | Na |
| Datblygu Chwaraeon | Na |
| Darpariaeth Blacksheep | Na |
| iDEA | Na |
| Antur Organig Cwm Cynon | Na, rhai sesiynau ond ddim ar leoliadau |
| HIT Education | |
| Coleg Merthyr | |
| Dallaglio Rugby Works | Na, peth Cymraeg sylfaenol yn cael ei siarad |